



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

30/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

24/03/2021

Gwerthusiad o'r Prosiect Gofal Plant ar Waith

Teitl: Gwerthusiad o'r Prosiect Gofal Plant ar Waith

Awdur(on): Ymchwil Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Harries, S. Lane, J (2021) Gwerthusiad o'r Prosiect Gofal Plant ar Waith. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 30/2021

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-brosiect-gofal-plant-ar-waith>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: trafodgofalplant@Llyw.cymru

Tabl y cynnwys

Rhestr o'r ffigurau	2
Rhestr Termau	3
1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg	16
3. Canfyddiadau	19
4. Effaith COVID-19 ar berfformiad a deilliannau'r Prosiect	41
5. Gofal Plant ar Waith fel model ar gyfer recriwtio a chymorth cyflogaeth	43
6. Casgliadau	48
Atodiad A: Hysbysiad preifatrwydd	53
Atodiad B: Canllawiau pwnc trafod	57
Canllaw pwnc trafod ar gyfer cyfweiliadau cwmpasu / rhanddeiliaid a phartneriaid	57
Canllaw pwnc trafod ar gyfer cyfweiliadau gosod cyflogwyr / gofal plant	61
Canllaw trafod ar gyfer cyfweiliadau ag atgyfeirwyr	63

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1.1. Lleoliadau Camau 1 a 2 y Prosiect Gofal Plant ar Waith, oedran y cyfranogwyr a dyddiad dechrau'r prosiect	9
Ffigur 1.2: Llinell amser cyflwyno 2il Gam y Prosiect Gofal Plant ar Waith	15
Ffigur 3.1: Map o'r broses ar gyfer cyflawni Gofal Plant ar Waith	22

Rhestr Termau

Acronym/Gair Allweddol	Diffiniad
CCLD	Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant – cymhwyster cydnabyddedig ar gyfer gweithwyr gofal plant proffesiynol.
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.
Cynnig Gofal Plant	30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer rhieni i blant tair a phedair blwydd oed sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
C4W	Cymunedau am Waith – rhaglen bartneriaeth gan Lywodraeth Cymru rhwng awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn cael ei chefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, i ddarparu gwasanaethau cymorth cyflogaeth yng Nghymru.
Economaidd Anweithgar	Mae unigolyn o oedran gweithio, ond nid yw mewn cyflogaeth nac wrthi'n chwilio am waith.
Gwiriad y DBS	Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – gwiriad cofnodion troseddol.
NDNA	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru.
NEET	Rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant.
PaCE	Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth – rhaglen sy'n rhoi cymorth gyda gofal plant i rieni tra'u bod yn cael hyfforddiant neu'n chwilio am waith.
TNA	Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant – y teitl swydd a roddir i unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect Gofal Plant ar Waith.
WEST	Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i Ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad o'r prosiect Gofal Plant ar Waith. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2020 a mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, cafodd yr ymchwil werthuso, fel y Prosiect ei hun, ei hatal dros dro rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, oherwydd pandemig COVID-19. O ganlyniad i'w atal dros dro, cafodd cyfnod cyflawni'r Prosiect ei estyn am dri mis tan fis Mawrth 2021, er bod ffrâm amser yr ymchwil wedi aros o fewn y rhai y cytunwyd arnynt yn wreiddiol.

Nodau ac amcanion y gwerthusiad

- 1.2 Roedd nodau ac amcanion y gwerthusiad, fel y nodwyd yn y fanyleb, fel a ganlyn:
- Deall i ba raddau y mae gweithgareddau'r prosiect yn effeithiol o ran denu a chynorthwyo cyfranogwyr i ymuno â'r gweithlu gofal plant a dyheu am gamu ymlaen ynddo;
 - Deall i ba raddau y mae gweithgareddau'r prosiect yn addas i baratoi cyfranogwyr ar gyfer cyflogaeth ac i gamu ymlaen yn y sector gofal plant;
 - Deall i ba raddau yr oedd y modd y rhoddwyd gweithgareddau'r prosiect ar waith yn effeithiol o ran cyrraedd y poblogaethau targed a'u cynorthwyo i ymuno â'r sector gofal plant a dyheu am symud ymlaen ynddo;
 - Archwilio'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cyfranogiad yn y cynllun, a;
 - Gwneud argymhellion i oleuo dyluniad y llwybr cyflogadwyedd a'r modd y caiff ei roi ar waith yn y dyfodol.

Y cefndir a'r cyd-destun polisi

- 1.3 Mae'r prosiect Gofal Plant ar Waith wedi bod yn cael ei gyflawni gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru (NDNA) mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i brofi dulliau newydd o gefnogi datblygiad a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu. Cyflawnwyd y prosiect dros ddau gam. Cyflawnwyd cam 1af y prosiect yn ardaloedd pum awdurdod lleol rhwng

mis Hydref 2017 a mis Gorffennaf 2018. Cyflawnwyd 2il Gam y prosiect mewn 10 awdurdod lleol rhwng mis Mai 2019 a mis Mawrth 2021. Mae rhagor o fanylion am gyflawni'r prosiect yn ystod y ddau gam yma wedi'u cynnwys yn yr adran sy'n rhoi trosolwg ar Brosiect Gofal Plant ar Waith isod.

- 1.4 Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £760,838 i roi cymorth i gyflawni'r Prosiect ar draws y ddau gam hyn (£111,000 ar gyfer Cam 1 a £649,838 ar gyfer Cam 2). Roedd dau gam y prosiect yn cynnig cymorth i'r unigolion a oedd yn cymryd rhan ar ffurf pedair wythnos o hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â gofal plant ac yna lleoliad â thâl am 16 awr yr wythnos mewn meithrinfa gofal plant.
- 1.5 Cyrhaeddodd Cam 1af y prosiect ei darged i ymgysylltu ag 16 o unigolion 50 oed neu drosodd a oedd yn economaidd anweithgar, a 32 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Aeth 2il Gam y prosiect y tu hwnt i'w darged i ymgysylltu ag 84 o gyfranogwyr trwy gefnogi 93 o unigolion 25 oed a throsodd a oedd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir.
- 1.6 Tarddodd rhesymeg a dyluniad y prosiect Gofal Plant ar Waith o adnabyddiaeth Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd bod lleoliadau gofal plant yn aml yn ei chael yn anodd recriwtio gweithwyr gofal plant o ansawdd da. Mae'r Prosiect hefyd yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chapasiti'r gweithlu yn y sector gofal plant ac yn ategu'r cynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar i feithrin capasiti a galluedd ar draws y sector gofal plant yng Nghymru¹.

Cefnogi capasiti'r gweithlu

- 1.7 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb* yn disgrifio'r nod i 'blant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd' ac yn cydnabod bod y blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o siapia dyfodol

¹ [Cynllun gweithlu'r blynyddoedd cynnar \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

unigolion.² Mae'r 'blynyddoedd cynnar' felly'n un o'r pum maes blaenoriaeth trawsbynciol.

- 1.8 Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun deng mlynedd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae a ddatblygwyd trwy broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol³. Mae'r cynllun yn amlygu pwysigrwydd codi statws proffesiwn y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi a datblygu'r gweithlu dros y deng mlynedd nesaf, gyda chynigion dan dair thema lefel uchel: denu recriwtiaid newydd o ansawdd da; codi safonau a sgiliau a buddsoddi mewn meithrin capasiti a galluedd. Mae'r prosiect Gofal Plant ar Waith yn gyson â phob un o'r tair thema, ond yn ategu thema denu recriwtiaid newydd yn bennaf.
- 1.9 Ym mis Medi 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithredu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru yn gynnar i brofi'r ddarpariaeth o ran 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer rhieni i blant tair a phedair blwydd oed sy'n gweithio. Ar ôl proses raddol i gyflwyno'r Cynnig, mae bellach yn cael ei gyflawni ledled y wlad. Er mai nod y Cynnig yw cefnogi cynnydd o ran darparu addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru, roedd pryderon y byddai'r galw am leoedd gofal plant yn cynyddu'n sylweddol, gan roi pwysau ar y capasiti mewn rhai rhannau o'r sector gofal plant i ddarparu gofal plant o ansawdd da. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif y byddai ar y sector gofal plant yng Nghymru angen 2,700 o newydd-ddyfodiaid erbyn 2020 i ateb y galw am ddarpariaeth gofal plant.
- 1.10 Fel rhan o'r gwerthusiad o weithredu cynnar y Cynnig Gofal Plant, gofynnwyd i leoliadau gofal plant a oedd ganddynt y capasiti i ehangu pe bai cynnydd yn y galw⁴. Dywedodd mwyafrif sylweddol nad oedd ganddynt unrhyw gapasiti ac un o'r rhesymau allweddol a roddwyd oedd cyndynrwydd neu anallu canfyddedig i gyflogi'r staff ychwanegol y byddai eu hangen.

² Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol](#).

³ Llywodraeth Cymru (2017) [Cynllun Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae](#).

⁴ Glover et al (2018) [Gwerthusiad o Weithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru](#).

- 1.11 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cyflwynodd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Gam 1 y prosiect Gofal Plant ar Waith, a oedd yn amcanu at recriwtio unigolion yr ystyrid, er gwaethaf y ffaith nad oedd ganddynt brofiad blaenorol o'r sector gofal plant o bosibl, bod ganddynt y sgiliau a'r priodoleddau personol cywir i weithio gyda phlant.

Cymorth Cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sydd wedi cael eu Diswyddo, Di-waith ac Economaidd Anweithgar

- 1.12 Mae'r cyfeiriad polisi a'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Cyflogadwyedd traws lywodraethol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd, cynyddu lefelau sgiliau, ymateb i fylchau mewn sgiliau a pharatoi pobl ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol.⁵
- 1.13 Un o ymrwymadau allweddol y cynllun oedd darparu dull unigol o ymdrin â chymorth cyflogadwyedd. Mae'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio, a gyflwynwyd ym mis Mai 2019 ac a ddarperir gan Gyrfa Cymru yn cynnig dull newydd o ddarparu cyngor cyflogadwyedd a gyrfaoedd am ddim ac yn ddi-dduedd i unigolion dros 16 oed ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad cenedlaethol i ystod eang o gymorth cyflogadwyedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, sy'n cefnogi ac yn ategu sianeli sy'n bodoli eisoes.
- 1.14 Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu ystod o gymorth cyflogadwyedd i helpu unigolion i oresgyn rhwystrau i waith. Mae Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol Llywodraeth Cymru – Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) a Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) – yn darparu cymorth mentora a chynghori unigol dwys i gyfranogwyr sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynnwys anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- 1.15 Mae rhaglenni cyflogadwyedd a mentrau cefnogi sgiliau eraill Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi unigolion sydd wedi colli eu swyddi, a'r rhai sy'n ddi-waith

⁵ [Cynllun cyflogadwyedd | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd)

ac yn economaidd anweithgar, yn cynnwys ReAct, Twf Swyddi Cymru, Mynediad, Hyfforddeiaethau, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd a'r Gwasanaeth Di-waith.


- 1.16 Yn gyson ag ymrwymadau Llywodraeth Cymru i gefnogi unigolion economaidd anweithgar, lansiwyd y Prosiect Gofal Plant ar Waith i gynnwys unigolion a oedd allan o waith mewn rhaglen o hyfforddiant a phrofiad gwaith ymarferol i'w harfogi i ymuno â'r sector gofal plant. Yr 16 wythnos o hyfforddiant a chyflogaeth â chymorth yw'r cam cyntaf tuag at yrfa yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Y bwriad oedd y gallai'r prosiect Gofal Plant ar Waith gael ei sefydlu fel rhan o gyflawni Cymru'n Gweithio a Cymorth Gwaith Cymru yn y dyfodol

Trosolwg o'r Prosiect Gofal Plant ar Waith

- 1.17 Rhwng mis Hydref 2017 a mis Gorffennaf 2018, fe wnaeth Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd dreialu cam 1af y prosiect Gofal Plant ar Waith, a gefnogwyd gan gronfa Cynhwysiant Weithredol CGGC⁶. Roedd y cam hwn yn cynnwys dau brosiect a oedd yn debyg o ran y modd y cawsant eu cyflawni, ond yn targedu cohortau mewn ystod oedran wahanol, a chawsant eu cyflawni ledled gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Ar ôl y cam cyntaf cynhaliwyd 2il Gam y prosiect. Mae Ffigur 1.1 yn cyflwyno trosolwg o'r ardaloedd cyflawni ar gyfer dau gam y prosiect. Ar ôl hwn ceir trosolwg o fanylion dau gam y prosiect, gan gynnwys ffocws, sail resymegol a deilliannau pob cam.

⁶ Caiff y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol ei rheoli gan CGGC a'i chefnogi â chyllid o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Ei nod yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a gwella cyflogadwyedd pobl ddifreintiedig.

Ffigur 1.1. Lleoliadau Camau 1 a 2 y Prosiect Gofal Plant ar Waith, oedran y cyfranogwyr a dyddiad dechrau'r prosiect



Cam 1 – Prosiect i rai 18-24 oed

- 1.18 Roedd y prosiect cyntaf, a gyflawnwyd yn ystod Cam 1, yn canolbwyntio ar gefnogi cyfranogwyr nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), a oedd yn 18-24 oed mewn rhai ardaloedd ledled De Cymru – Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Blaenau Gwent. Cafodd gweithgareddau i ymgysylltu â'r grŵp 18-24 oed a rhoi cymorth iddynt yn y Cam hwn o'r Prosiect eu cefnogi gan £28,000 gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cyfateb â'r cyllid a ddarparwyd gan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol⁷. Rhan o feini prawf y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol ar gyfer dwyrain Cymru yw y dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Y maen prawf hwn felly oedd y sail ar gyfer rhesymeg y prosiect i ganolbwyntio ar gyfranogwyr yn yr ystod oedran hon fel rhan o'r prosiect cyntaf yng Ngham 1.
- 1.19 Fe wnaeth y prosiect i rai 18-24 oed ddwyn nifer o ddeilliannau llwyddiannus, gan gynnwys cyfleoedd creu swyddi ar gyfer cyfranogwyr. Y targed oedd ymgysylltu â 32 o bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n darged a gyrhaeddwyd gan y Prosiect. Allan o'r 32 o gyfranogwyr hyn, cafodd naw (28 y cant) eu cefnogi'n llwyddiannus i gael cyflogaeth yn y sector gofal plant, fe wnaeth saith (22 y cant) sicrhau cyflogaeth mewn sectorau eraill (e.e. y sectorau manwerthu, cynhyrchu bwyd a gofal) ac ymgwymerodd tri (9 y cant) â rolau gwirfoddoli ar ôl cwblhau'r prosiect.⁸

Cam 1 – Prosiect i rai dros 50

Er bod y prosiect i rai 18-24 oed wedi dwyn deilliannau cadarnhaol, roedd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd Cymru'n ymwybodol mai'r bobl hynny dan 25 oed (h.y. pobl sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg) oedd y rhan fwyaf o recriwtiaid newydd i mewn i'r sector gofal plant yn barod. Ar ben

⁷ Caiff y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol ei rheoli gan CGGC a'i chefnogi â chyllid o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Ei nod yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a gwella cyflogadwyedd pobl ddifreintiedig.

⁸ Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd (NDNA), Adroddiad Cau y Prosiect Gofal Plant ar Waith i Rai 18-24 Oed

hynny, roedd cydnabyddiaeth i fodolaeth 'cyfoeth o allu heb ei gyffwrdd' i weithio yn y sector gofal plant ymhlith unigolion hŷn, sy'n aml â phrofiadau bywyd perthnasol a sgiliau gofal plant anffurfiol, ond sydd heb gael yr hyfforddiant a'r profiad o'r amgylchedd gofal plant ffurfiol sy'n ofynnol i gael cyflogaeth yn y sector. Y gydnabyddiaeth oedd bod cyfle i fanteisio ar y gronfa bosibl hon o brofiad' a oedd yn sail resymegol ar gyfer yr elfen arall o Gam 1af y Prosiect a fu'n ymgysylltu â'r unigolion economaidd anweithgar 50 oed a throsodd. Cafodd y rhan hon o Gam 1af y Prosiect ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cyflawnwyd yn Sir y Fflint a Wrecsam.

- 1.20 Cyrhaeddodd Cam 1af y prosiect ei darged i recriwtio a chyflawni'r rhaglen ar gyfer 16 o unigolion economaidd anweithgar dros 50 oed. Allan o'r cyfranogwyr hyn, llwyddodd 10 (67 y cant) i fynd ymlaen at gyflogaeth, gyda saith ohonynt yn sicrhau cyflogaeth gyda'u cyflogwr ar gyfer y lleoliad Gofal Plant ar Waith.⁹

Cam 2

- 1.21 Ar ddiwedd Cam 1, daeth yn amlwg i gynrychiolwyr Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd Cymru a Llywodraeth Cymru bod nifer o unigolion a allai fod wedi bod yn addas ar gyfer y prosiect, a chael budd o'r prosiect, nad oeddent yn gymwys i gyfranogi oherwydd eu hoedran (h.y. y rhai dros 24 oed). Gan gydnabod y ffactorau hyn a oedd yn gysylltiedig ag oedran, canolbwyntiodd 2il Gam y prosiect ar roi cymorth i unigolion economaidd anweithgar a di-waith 25 oed a throsodd. Felly roedd y rhai dros 50 oed yn dal i fod yn gymwys ar gyfer y prosiect, ond nid oedd y rhai 24 oed ac iau yn gymwys.
- 1.22 Roedd y rhesymeg ar gyfer canolbwyntio cymorth Gofal Plant ar Waith ar y rhai dros 25 oed hefyd yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod mathau eraill o gymorth cyflogaeth eisoes ar gael i bobl 18-24 oed. Roedd y rhesymeg hefyd yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth, fel y nodwyd uchod, mai pobl dan 25 oed

⁹ Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd (NDNA), Adroddiad Cau'r Prosiect Gofal Plant ar Waith i Rai dros 50

sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg yw'r rhan fwyaf o newydd-ddyfodiaid i'r sector yn draddodiadol. Mae unigolion dros 25 oed a gaiff eu recriwtio gan gyflogwyr yn y lleoliadau gofal plant yn tueddu i fod y rhai sydd eisoes â phrofiad o weithio yn y sector. Gan hynny, ymddengys fod cyfleoedd i bobl dros 25 oed sydd heb unrhyw brofiad blaenorol gael cyflogaeth yn y sector fel newydd-ddyfodiaid yn gyfyngedig. Roedd cynorthwyo unigolion dros 25 oed i gael cyflogaeth yn y sector gofal plant hefyd yn cyfrannu at amrywiaeth oedran y gweithlu gofal plant yng Nghymru – nod pellach sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun y gweithlu Blynnyddoedd Cynnar¹.


- 1.23 Felly, yn dilyn llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd o Gam 1 (gweler y trosolwg o ddeilliannau'r prosiect uchod), nod 2il Gam y Prosiect oedd adeiladu ar y cam peilot, ei ehangu i gynnwys llwybr hyfforddi a fyddai'n cefnogi'r lefel sefydlu yn y gyfres newydd o gymwysterau gofal plant.
- 1.24 Cafodd 2il Gam y Prosiect, fel gyda'r Cam 1af, ei gyflawni gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a'i ariannu gan ddwy isadran yn Llywodraeth Cymru, sef (i) Isadran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynnyddoedd Cynnar a (ii) yr Isadran Cyflogadwyedd a Sgiliau. Roedd y rhaniad hwn o ran y cyllid yn adlewyrchu'r ddwy elfen o resymeg y prosiect – h.y. denu a chynorthwyo mwy o unigolion cymwysedig i weithio yn y sector gofal plant ledled Cymru (ffocws Gofal Plant, Chwarae a'r Blynnyddoedd Cynnar), yn ogystal â chefnogi'r targedau a nodir yng nghynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (ffocws Cyflogadwyedd a Sgiliau):
- Lleihau nifer y bobl sy'n ddi-waith
 - Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n economaidd anweithgar
 - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
 - Cynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith
- 1.25 Roedd Cam 2 yn mynd i gael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru yn ardaloedd yr awdurdodau lleol canlynol:
- Conwy / Wrecsam

- Gwynedd / Ynys Môn
 - Caerdydd / Caerffili
 - Torfaen / Casnewydd
 - Abertawe / Castell-nedd Port Talbot.
- 1.26 Mae Ffigur 1.2 yn cyflwyno llinell amser i ddangos pryd y cyflawnwyd Cam 2 yn ardal pob un o'r awdurdodau lleol uchod.
- 1.27 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Chwefror 2021) mae 2il Gam y prosiect Gofal Plant ar Waith yn nesáu at ddiwedd ei gyfnod cyflawni ac mae i fod i gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2021. Cyflawnwyd y cam hwn yn ystod pandemig COVID-19, a greodd heriau i'r Prosiect, gyda lleoliadau gofal plant yn gorfod cau dros dro a'r Prosiect yn gorfod addasu ei ddull (gweler adran 4 am ragor o fanylion am effaith COVID-19 ar y Prosiect).
- 1.28 Mae cyfanswm o 93 o gyfranogwyr wedi ymgysylltu ag 2il Gam y prosiect (o'i gymharu â tharged o 84 o gyfranogwyr), y gwnaeth 15 ohonynt adael y prosiect yn gynnar. Gan nad yw'r prosiect wedi cael ei gwblhau eto, nid yw'r data monitro ar gyfanswm y deilliannau o ran swyddi wedi cael ei goladu eto. Fodd bynnag, datgelodd cyfweiliadau gwerthuso gyda staff prosiect Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru, cyflogwyr a gyfranogodd a chyfranogwyr unigol fod 36 o'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi cael cychwyn cyflogaeth ar ôl iddynt gwblhau'r prosiect. Mae 5 yn ychwanegol wedi cael cynnig cyflogaeth ond oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid ydynt wedi gallu ymgymryd â hyn. Cafodd llawer o'r cyfranogwyr hyn gyflogaeth gyda'u cyflogwr ar gyfer eu lleoliad fel rhan o'r prosiect a rhai gyda chyflogwyr gwahanol yn y sector gofal plant. Hefyd, mae 8 cyfranogwr wedi camu ymlaen at brentisiaethau a / neu hyfforddiant ac maent naill ai'n gweithio tuag at neu eisoes wedi ennill eu Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)¹⁰

¹⁰ Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD) yw'r cymhwyster cydnabyddedig ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector gofal plant. Prentisiaeth seiliedig-ar-ymarfer ydyw, sy'n asesu gwybodaeth dysgwyr a'u cymhwysedd i ymarfer fel ymarferydd gofal plant.

- 1.29 Yn ychwanegol at y deilliannau hyn o ran swyddi, enillodd y cyfranogwyr sgiliau meddal hefyd trwy gyfranogi ym mhrosiect Gofal Plant ar Waith. Caiff manylion pellach y deilliannau hyn o ganlyniad i'r prosiect eu trafod yn adran 3.

Ffigur 1.2: Llinell amser cyflwyno 2il Gam y Prosiect Gofal Plant ar Waith



Allwedd

Cyfnod pan ddigwyddodd y gweithgarwch
recriwtio'n bennaf
Cyfnod cyflawni



2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal y gwerthusiad o Brosiect Gofal Plant a'r Waith.

Ymchwil ddesg

- 2.2 Cynhaliwyd ymarfer ymchwil ddesg i ddarparu cyd-destun ar gyfer y Prosiect. Roedd yr ymchwil ddesg hon yn cynnwys adolygiad o ddogfennaeth gefndir, i gael dealltwriaeth gychwynnol am y sail resymegol ar gyfer y Prosiect Gofal Plant ar Waith a throsolwg o weithgareddau'r Prosiect. Roedd dogfennaeth gefndir allweddol a adolygwyd yn cynnwys dogfennau polisi perthnasol, adroddiadau gwerthuso cam 1 mewnol ac adroddiadau cynnydd cam 2. Yn ychwanegol at y ddogfennaeth gefndir hon, cynhaliwyd adolygiad o ddata monitro'r prosiect hefyd. Diben yr ymarfer hwn oedd archwilio allbynnau'r prosiect, gan gynnwys niferoedd y cyfranogwyr a ffigyrau ar gyfer y deilliannau o ran swyddi.

Cyfweliadau gyda Rhanddeiliaid Cenedlaethol: Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru

- 2.3 Cynhaliwyd chwe chyfweliad lled strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r Prosiect, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru a oedd yn rhan o gyflawni'r Prosiect. Roedd y cyfweliadau hyn yn cynnwys cymysgedd o gyfweliadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
- 2.4 Roedd testunau a drafodwyd yn cynnwys barn am gydweddiad strategol y Prosiect i gefnogi'r gweithlu; dyluniad y Prosiect a rhwng camau 1 a 2; mecanweithiau cymorth ar gyfer cyflawni; prosesau recriwtio; a hwyluswyr a heriau i weithredu.

Cyfweliadau gyda Chynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gyfranogodd, darparwyr gofal plant ac atgyfeirwyr

- 2.5 Ar y cyfan, cynhaliwyd cyfanswm o 33 o gyfweliadau lled strwythuredig gyda sampl o hyfforddeion y prosiect (Cynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant) a oedd wedi cwblhau'r Prosiect Gofal Plant ar Waith; darparwyr gofal plant a gynigiodd leoliadau ar gyfer Cynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant fel rhan o'r Prosiect ac unigolion o asiantaethau cyflogaeth a oedd wedi atgyfeirio ymgeiswyr at y Prosiect. Caiff canllawiau ynghylch y testunau a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweliadau hyn eu cyflwyno yn Atodiad B. Cysylltodd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru â'r holl Gynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a chyflogwyr a gyfranogodd i ofyn am eu caniatâd i rannu eu manylion cyswllt gyda'r tîm gwerthuso yn unol â gofynion y Gofyniad Cyffredinol ar Reoli Data. Cafodd manylion cyswllt y rhai a roddodd eu caniatâd eu rhannu gyda'r tîm gwerthuso gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru trwy Lywodraeth Cymru. Cysylltwyd â'r unigolion hyn naill ai trwy e-bost neu dros y ffôn ac fe'u gwahoddwyd i gael cyfweliad. Rhoddwyd cyfweliad i'r rhai a gytunodd i gyfrannu at y gwerthusiad. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal cymysgedd o gyfweliadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau COVID-19, cynhaliwyd yr holl gyfweliadau lled strwythuredig dros y ffôn.
- 2.6 O'r 33 o gyfweliadau lled strwythuredig a gynhaliwyd, cynhaliwyd naw gyda Chynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant, yr oeddent i gyd wedi cyfranogi ym mhrosiect Gofal Plant ar Waith yn ystod cam 2. Roedd y Cynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant hyn wedi'u lleoli ledled y gwahanol ardaloedd yng Nghymru y cyflawnwyd y Prosiect ynddynt. Canolbwyntiodd y cyfweliadau ar brofiadau'r Cynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant o gyfranogi yn y Prosiect, gan gynnwys y cymorth a oedd ar gael iddynt yn ystod y Prosiect a'u barn ynglŷn â dyluniad y Prosiect, ei strwythur a'r modd y cafodd ei gyflawni; ac effaith eu cyfranogiad, gan gynnwys effeithiau canfyddedig ar eu hymwybyddiaeth, eu gwybodaeth a'u canfyddiadau am gyfleoedd yn y sector gofal plant ac ar eu dyheadau ar gyfer hyfforddiant, cyflogaeth a'u gyrfa yn y dyfodol.

- 2.7 Cafodd 18 o'r 33 o gyfweiliadau lled strwythuredig eu cynnal gyda darparwyr gofal plant a roddodd lleoliadau i Gynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant fel rhan o'r Prosiect (3 darparwr o gam 1 a 15 o ddarparwyr o gam 2). Roedd y darparwyr gofal plant hyn wedi'u lleoli ledled y gwahanol ardaloedd yng Nghymru y cyflawnwyd y Prosiect ynddynt. Roedd yr unigolion y cyfwelwyd â hwy'n gysylltiadau gweithredol allweddol yn y meithrinfeydd lle darparwyd y lleoliadau, a rheolwr y lleoliad ydoedd yn y rhan fwyaf o achosion. Canolbwyntiodd y cyfweiliadau ar brofiadau'r cyfweleion hyn o gynorthwyo cyfranogwyr i gwblhau eu lleoliad; eu barn ynglŷn â dyluniad y Prosiect; a manteision a chyfyngiadau'r cynllun i'r gweithlu presennol a dyfodol y sector yn eu tyb hwy.
- 2.8 Cafodd chwech o'r 33 o gyfweiliadau lled strwythuredig eu cynnal gydag unigolion a oedd wedi bod yn rhan o atgyfeirio ymgeiswyr at y Prosiect. Yn y rhan fwyaf o achosion, cynrychiolwyr o asiantaethau a gynigiodd gymorth cyflogaeth i'r unigolion a atgyfeiriwyd at y Prosiect oedd yr unigolion hyn, gan gynnwys cynrychiolydd y Cymunedau am Waith (C4W); PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth); Swyddog Cyswllt Busnes mewn cyngor; a Hyfforddiant Gogledd Cymru. Canolbwyntiodd y cyfweiliadau ar farn atgyfeirwyr am gydweddiad strategol y Prosiect i gefnogi unigolion nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); cyfatebolrwydd y Prosiect â mentrau eraill sy'n cefnogi cyflogadwyedd a'r sector gofal plant; marchnata a hyrwyddo'r Prosiect; y broses atgyfeirio; a deilliannau'r Prosiect.

3. Canfyddiadau

- 3.1 Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r cyfweiliadau gwaith maes a gynhaliwyd gyda Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau atgyfeirio yn ogystal â chyflogwyr a gyfranogodd yn y sector gofal plant a Chynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gyfranogodd. Mae'n dechrau trwy roi amlinelliad o ddyluniad y prosiect ac adolygu strwythur cyflawni'r prosiect o'r gweithgarwch atgyfeirio a recriwtio cychwynnol hyd at gael mynediad at leoliadau gwaith. Mae wedyn yn ystyried y deilliannau a gyflawnwyd a sut y gwnaeth pandemig COVID-19 effeithio ar y rhain yn ogystal â'r ffordd y cyflawnwyd y prosiect mewn rhai ardaloedd. Mae'n gorffen trwy adolygu'r prosiect fel model cymorth recriwtio posibl ar gyfer y sector gofal plant a model cymorth cyflogaeth ar gyfer unigolion sy'n dymuno gweithio yn y sector.

Dyluniad

- 3.2 Dyluniwyd Gofal Plant ar Waith gyda golwg ar gynorthwyo cyfranogwyr i ddod yn Gynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant sy'n barod i weithio trwy gynnig hyfforddiant rhagarweiniol penodol mewn gofal plant yn ogystal â lleoliadau gwaith â thâl. Y nod oedd y byddai hyn yn darparu'r 'camau graddol' i alluogi cyfranogwyr i ddilyn gyrfa ffurfiol yn y sector gofal plant a chwarae.
- 3.3 Mae dyluniad y prosiect wedi newid ychydig yn ystod ei gyfnod cyflawni a hynny'n aml o ganlyniad i newidiadau yng ngofynion hyfforddiant a chymwysterau'r sector gofal plant yn ogystal ag adborth a gafwyd yn uniongyrchol gan Gynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a chyfranogwyr o blith cyflogeion. Er enghraifft, adeiladodd 2il Gam y prosiect ar y dull hyfforddi cychwynnol a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 ac ehangodd hwnnw i gynnwys hyfforddiant a oedd yn cefnogi'r lefel sefydlu newydd yn y gyfres newydd o gymwysterau Gofal Plant¹¹.

¹¹ <https://qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/new-health-and-social-care-and-childcare-qualifications-launched-sept-2019/>

- 3.4 Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn adlewyrchu'r sgiliau ac ymddygiadau ehangach ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n ofynnol i gefnogi dysgu a datblygiad plant ar draws y grŵp oedran 0-7 e.e. datblygiad cynnar iaith a lleferydd. Roedd hefyd yn cefnogi Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ehangach Llywodraeth Cymru.¹² Y bwriad yw y byddai'r llwybr hyfforddi hwn yn cynorthwyo Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant i gael yr hyfforddiant rhagarweiniol cywir ar gyfer y sector ac mai hwn fyddai un o'r llwybrau cydnabyddedig ar gyfer mynediad i mewn i'r sector. Mae'r hyfforddiant hefyd wedi'i fwriadu i feithrin hyder Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant sy'n cyfranogi i sicrhau cyflogaeth yn y dyfodol ac ennill y cymwysterau gofal plant ffurfiol sy'n ofynnol i weithio yn y sector ar lefelau 2 a 3.
- 3.5 Mae newidiadau i ddyluniad cyflawni'r prosiect wedi cael eu cyflwyno dros amser hefyd. Er enghraifft, cafodd y bloc hyfforddi cychwynnol o 4 wythnos gyda lleoliad 12 wythnos ar ôl hynny ei newid i 3 wythnos o hyfforddiant, a 2 wythnos ym meithrinfa'r lleoliad gwaith ar ôl hynny, cyn dychwelyd am 1 wythnos o hyfforddiant ac yna deg wythnos ym meithrinfa'r lleoliad gwaith. Cyflwynwyd y newid hwn o ganlyniad i adborth a gafwyd gan Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd yn cyfranogi a awgrymodd y byddai wythnos o hyfforddiant pellach i fyfyrion ar rai profiadau cynnar a gafwyd yn ystod y pythefnos cyntaf ar leoliad gwaith o fudd iddynt.¹³
- 3.6 Cyflwynodd y prosiect fwy o hyblygrwydd yn ystod y lleoliad hefyd. Yn wreiddiol roedd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn treulio ychydig dros dair awr y dydd dros bum diwrnod ym meithrinfa'u lleoliad gwaith i gronni eu 15 – 16 awr o waith bob wythnos. Nid oedd rhai Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn gallu ymrwymo i'r rota hon oherwydd cyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau eraill y tu allan i'r gwaith. Newidiwyd strwythur y lleoliad gwaith i ymateb i hyn fel bod Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn

¹² Mae'r Rhaglen Trawsnewid ADY yn ceisio archwilio ffyrdd o weithio gyda phlant cyn-ysgol i sicrhau bod y rhai y mae angen datblygiad ychwanegol arnynt yn cael eu cefnogi cyn dechrau addysg statudol.


¹³ Dylid nodi, oherwydd yr angen i gyflwyno hyfforddiant ar-lein ar ôl ailddechrau'r prosiect ym mis Gorffennaf 2020, nad oedd y newidiadau hyn i amseriad o ran darparu'r hyfforddiant wastad yn gallu cael eu gwneud.

gallu gwneud naill ai diwrnod 5 awr neu ddiwrnod 6 awr dros dridiau i gronni eu horiau. Dylanwadwyd ar gyflawni'r prosiect gan COVID-19 hefyd a rhoddir ffocws mwy manwl ar hyn yn adran 4.

Cyflawni

- 3.7 Ceir crynodeb o'r broses gyflawni ar gyfer y prosiect Gofal Plant ar Waith yn Ffigur 4.1 isod. Mae'r broses yn dechrau gyda lleoliadau gofal plant a Chynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn cael eu recriwtio i'r prosiect ar yr un pryd, ac yna ceir rhaglen o hyfforddiant a phrofiad gwaith mewn lleoliad gofal plant, ac mae'r broses yn gorffen gyda'r posibilrwydd bod Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn sicrhau cyflogaeth gyda'r feithrinfa lle gwnaethant gwblhau eu lleoliad yn dilyn cwblhau'r rhaglen.

Ffigur 3.1: Map o'r broses ar gyfer cyflawni Gofal Plant ar Waith



Llwybrau atgyfeirio a recriwtio

- 3.8 Nododd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fod y prosiect yn amcanu at ddatblygu proses lle byddai asiantaethau cyflogaeth, gan gynnwys Cymunedau am Waith (C4W) a PaCE, yn atgyfeirio unigolion at gydgyssylltwyr y prosiect Gofal Plant ar Waith. Wedyn byddai'r cydgysylltwyr yn cofrestru ymgeiswyr addas a atgyfeiriwyd atynt ar y rhaglen. Er mwyn datblygu'r llwybr atgyfeirio hwn bu'n ofynnol i gydgyssylltwyr Gofal Plant ar Waith ymgysylltu ag asiantaethau cyflogaeth i hyrwyddo'r prosiect ac annog cynrychiolwyr o'r asiantaethau hyn i adnabod cyfranogwyr posibl ac addas o fewn eu llwyth achosion a'u hatgyfeirio at y prosiect.
- 3.9 Ar y cyfan roedd y rhai y cyfwelwyd â hwy o'r farn bod y broses atgyfeirio'n gweithio'n dda, a nododd cydgysylltwyr prosiectau eu bod, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gallu defnyddio'r broses hon i recriwtio nifer yr ymgeisydd yr oedd eu hangen arnynt i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus ym mhob ardal. Fodd bynnag roedd profiadau cydgysylltwyr y prosiect o'r broses atgyfeirio'n amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol hefyd. Mewn rhai achosion – e.e. de ddwyrain Cymru – roedd cydgysylltwyr y prosiect yn gallu cael mynediad at asiantaethau atgyfeirio trwy swyddogion cyswllt partneriaeth a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau cymorth cyflogaeth lleol.¹⁴ Gyda chymorth y swyddogion cyswllt partneriaeth lleol, roedd cydgysylltwyr Gofal Plant ar Waith, a oedd yn weithredol yn yr ardaloedd hyn, yn gallu gwahodd nifer o asiantaethau lleol i ddigwyddiadau wedi'u trefnu lle gallent gyflwyno'r prosiect iddynt. Fodd bynnag, i gydgyssylltwyr y prosiect a oedd yn gweithredu mewn ardaloedd mwy gwledig megis gogledd orllewin Cymru, roedd y dasg o godi ymwybyddiaeth yn fwy o her gan nad oedd rhwydwaith o ddarparwyr y gallent gael mynediad ato er mwyn hyrwyddo'r Prosiect ymhlith asiantaethau. Yn lle hynny, nododd y cydgysylltwyr hyn, er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ennill cefnogaeth i'r prosiect ymhlith sefydliadau atgyfeirio lleol yn eu hardal, eu bod yn gorfod treulio cryn dipyn o amser yn teithio o

¹⁴ Cyflogir Swyddogion Cyswllt gan yr awdurdod lleol ac maent yn cynnal cyswllt â'r canolfannau gwaith, Cymunedau am Waith, Remploy ac unrhyw asiantaethau cyflogaeth eraill.

amgylch canolfannau gwaith a lleoliadau eraill yn ardal eu hawdurdod lleol i gysylltu'n uniongyrchol â phob un.

- 3.10 Nododd asiantaethau atgyfeirio eu bod yn croesawu'r cyfle i atgyfeirio rhai o'u cwsmeriaid at y prosiect. Fe wnaeth cynrychiolwyr asiantaethau y cyfwelwyd â hwy ganmol y modd yr oedd cydgysylltwyr y prosiect yn cyfathrebu a'r cymorth yr oeddent yn ei roi ac fe wnaethant nodi eu bod wedi cael gwybodaeth dda am ddiben y prosiect ac ar gyfer pwy yr oedd wedi'i fwriadu. Nododd asiantaethau atgyfeirio eu bod wedi croesawu'n arbennig y ffaith bod y prosiect yn cynnig cyfuniad o hyfforddiant a lleoliad gwaith â thâl. Fe wnaethant nodi y gallai prosiectau cymorth cyflogaeth eraill sydd ar gael i'w cwsmeriaid ar hyn o bryd gynnig rhai elfennau tebyg i'r rhai a oedd ar gael trwy Gofal Plant ar Waith, h.y. hyfforddiant neu brofiad gwaith, ond nid y ddau. Nid oedd unrhyw raglen gyflogaeth arall, hyd y gwyddai'r asiantaethau atgyfeirio, yn cynnig lleoliadau gwaith â thâl i gyfranogwyr ar hyn o bryd.
- 3.11 Roedd y cyfuniad o hyfforddiant a phrofiad gwaith yn ogystal â'i ffocws sector-benodol, ym marn asiantaethau atgyfeirio, yn gwneud Gofal Plant ar Waith yn 'rhaglen gymorth unigryw' a oedd yn gweddu i anghenion nifer o'u cleientiaid. Felly roedd asiantaethau atgyfeirio'n hapus ac yn barod i atgyfeirio unigolion at y prosiect.
- 3.12 Nododd rhai asiantaethau atgyfeirio eu bod wedi cael eu hysbysu gan gydgysylltwyr y prosiect Gofal Plant ar Waith bod lleoedd ar y prosiect yn gyfyngedig, ac mai dim ond ymgeiswyr addas y dylid eu hatgyfeirio ato – h.y. y rhai a oedd yn dangos y 'sgiliau a phriodoleddau personol cywir i weithio yn y sector gofal plant'. Yng ngoleuni hyn nododd yr asiantaethau atgyfeirio hyn eu bod yn adolygu addasrwydd eu cwsmeriaid yn ofalus i geisio sicrhau mai dim ond y rhai a oedd fwyaf tebygol o ymgysylltu'n llawn â'r prosiect ac felly llwyddo arno yn eu tyb hwy oedd yn cael y cyfle i gael eu hatgyfeirio ato.
- 3.13 Nododd cydgysylltwyr y prosiect Gofal Plant ar Waith fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a atgyfeiriwyd atynt yn addas ar gyfer y prosiect, er nad oedd hyn yn wir ym mhob achos. Ni ddaeth rhai ymgeiswyr a atgyfeiriwyd at y prosiect i'w cyfweliad cyntaf – er y dywedwyd mewn rhai o'r achosion hyn mai

oherwydd problemau eraill yr oedd yr unigolion hyn yn eu hwynebu yr oedd hyn. Nid oedd ymgeiswyr eraill a atgyfeiriwyd at y rhaglen yn gallu cael eu cofrestru am bod ganddynt gofnod troseddol a'u bod felly heb lwyddo yng ngwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cyfeiriodd un cydgysylltydd at rai enghreifftiau lle'r oedd gan y rhai a gyfeiriwyd at y prosiect fân ddigwyddiadau o'u harddegau a arweiniodd at rybudd gan yr heddlu. Fodd bynnag, gellid parhau i ystyried bod yr unigolion hyn yn addas ar gyfer y prosiect er bod cael y gymeradwyaeth DBS ofynnol ar eu cyfer weithiau'n rhwysr.

- 3.14 Pwysleisiodd cydgysylltwyr y prosiect fod llwyddiant y prosiect yn ddibynnol ar gymorth darparwyr gofal plant i gynnig lleoliadau gwaith i gyfranogwyr a gofrestrwyd ar y prosiect. Y darparwyr gofal plant hyn hefyd oedd y sefydliadau yr oedd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru yn eu cynrychioli fel corff aelodaeth. Felly, roedd sicrhau bod yr ymgeiswyr a oedd yn cael eu cofrestru ar gyfer y prosiect yn addas ar gyfer y lleoliadau o'r pwys mwyaf i dîm cyflawni'r prosiect.

'Roeddem yn ceisio bod yn drylwyr oherwydd rydych yn hyrwyddo'r prosiect i'r meithrinfeydd ac mae arnoch eisiau gwneud yn siŵr bod y Cynorthwywyr Meithrinfed Dan Hyfforddiant yn mynd i fod yn frwd ac yn ymrwymedig i'r swydd am bod arnoch eisiau i'r prosiect fynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau recriwtio y mae meithrinfeydd yn aml yn eu profi. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod hyfforddeion yn cael y cyfle gorau i lwyddo.' (Un o gydgysylltwyr Gofal Plant ar Waith)

- 3.15 Roedd llawer o'r unigolion a atgyfeiriwyd at y prosiect yn famau i blant o oedran cyn-ysgol. Roedd cydgysylltwyr y prosiect a sefydliadau atgyfeirio'n cydnabod bod unigolion sy'n rhieni eu hunain yn aml yn gwneud ymgeiswyr da am gyflogaeth yn y sector gofal plant gan eu bod wedi ennill 'sgiliau bywyd a sgiliau gofal plant' o ofalu am eu plant eu hunain. Fodd bynnag, mae costau a / neu drefniadau ymarferol cyfrifoldebau gofal plant hefyd yn gallu creu rhwysr i gyflogaeth ar gyfer rhieni, yn enwedig rhieni i blant o oedran cyn-ysgol. Gan hynny, roedd y prosiect Gofal Plant ar Waith i'w weld yn arbennig o berthnasol

i unigolion a oedd yn cael cymorth gan y prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), gan mai rhieni di-waith yw'r rhain sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth oherwydd gofal plant.¹⁵ Nododd cynrychiolwyr PaCE hefyd y gallent gynnig peth cymorth gofal plant i'r unigolion yr oeddent yn eu hatgyfeirio at y prosiect tra'r oeddent yn cael mynediad at elfennau hyfforddiant y prosiect.

Sefydlu

- 3.16 Roedd ymgeiswyr a atgyfeiriwyd at y prosiect gan sefydliadau atgyfeirio'n cael cyswllt gan y cydgysylltydd Gofal Plant ar Waith yn eu hardal cyn gynted â phosibl. Ar ôl hyn roedd cyfweiliad anffurfiol yn cael ei gynnal fel arfer. Cyn COVID roedd hyn yn aml yn digwydd mewn llyfrgell leol neu leoliad cymunedol arall. Yn dilyn dechrau'r pandemig, cafodd y cyfweiliadau hyn eu cynnal dros y ffôn neu ar blatfformau ar-lein. Cyfeiriodd rhai cydgysylltwyr at y cyfweiliad fel sesiwn 'dod i'th adnabod' yn hytrach nag unrhyw beth a oedd yn ymdebygu i gyfweiliad ffurfiol ar gyfer swydd. Fodd bynnag, roedd yn cynnig cyfle i gydgysylltwyr Gofal Plant ar Waith egluro ymhellach wrth gyfranogwyr beth oedd y prosiect yn ei olygu a beth oedd y disgwyliadau ohonynt hwy fel gyfranogwyr. Roedd hyn hefyd yn cynnig cyfle i gydgysylltwyr y prosiect bwysu a mesur a oedd gan yr ymgeiswyr hyn y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i'r prosiect yr oeddent yn chwilio amdanynt. Nododd cydgysylltwyr fod y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi parhau i fod yn rhan o'r prosiect ar ôl y cyfweiliad hwn, er y nodwyd hefyd fod ychydig o ymgeiswyr wedi sylweddoli yn ystod y cyfweiliad nad oedd y prosiect yn addas iddynt hwy ac wedi gadael ar y cam hwn.

'Roedd yn amlwg nad oedd gan rai [ymgeiswyr a atgyfeiriwyd] ddiddordeb go iawn mewn gofal plant ac felly roedd yn fater o egluro wrthynt beth fyddai'r prosiect yn ei olygu i wneud yn siŵr eu bod yn deall beth oedd o'u blaenau. Roedd hyn yn amlwg yn cynnwys trafodaeth dair ffordd rhwng y cydgysylltydd, yr atgyfeirydd a'r cyfranogwr' (Un o gydgysylltwyr Gofal Plant ar Waith).

¹⁵ Mae PaCE yn cynnig cymorth gofal plant i rieni tra'u bod yn hyfforddi neu'n chwilio am waith

- 3.17 Roedd y rhai a barhaodd â'r prosiect ar ôl y cyfweiliad yn cael eu galw'n gynorthwywyr meithrinfa dan hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd roedd y broses recriwtio'n cymryd tua chwe wythnos i'w chwblhau. I rai o'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gofrestrwyd ar y prosiect ar ddechrau'r cyfnod recriwtio, roedd bwlch o sawl wythnos felly cyn eu bod yn cael unrhyw hyfforddiant. Fodd bynnag, nododd cydgysylltwyr a Chynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant fod cyfathrebu cyson wedi parhau i ddigwydd gyda Chynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn ystod yr amser hwn. Roedd y cyfnod aros hwn cyn yr hyfforddiant yn angenrheidiol hefyd gan ei fod yn rhoi cyfle i gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn ogystal â gofynion eraill megis gofyn i Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ddangos eu tystiolaeth adnabod (nad oedd wastad ar gael yn rhwydd i bob ymgeisydd) a chynnal asesiadau cychwynnol megis yr asesiad WEST.¹⁶

Hyfforddiant

- 3.18 Unwaith yr oedd cohort o Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant mewn ardal awdurdod lleol wedi cael eu recriwtio i'r prosiect, roeddent yn cael cynnig hyfforddiant a oedd, cyn COVID, yn cael ei ddarparu mewn sesiynau grŵp un-i-un mewn lleoliad cymunedol lleol, a oedd yn cael ei logi gan y cydgysylltydd yn benodol i ddarparu'r hyfforddiant. Roedd y lleoliad a oedd yn cael ei ddewis, hyd y bo'n bosibl, mewn ardal a oedd o fewn cyrraedd rhwydd i'r holl Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd yn cyfranogi. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol, nid oedd darparu'r hyfforddiant yn y ffordd hon yn broblem. Fodd bynnag, nododd rhai cydgysylltwyr fod dod o hyd i leoliad i ddarparu'r hyfforddiant a oedd yn hygyrch i'r holl Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant mewn ardal wledig, ar adegau, yn her. Er enghraifft, cafodd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant o Wynedd a gyfranogodd yn y Prosiect eu recriwtio o leoedd a oedd yn ymestyn dros ardal fawr yn yr awdurdod lleol. Roedd ceisio dod o hyd i le i ddarparu hyfforddiant ar gyfer y grŵp cyfan mewn lleoliad a oedd yn hygyrch i'r holl gyfranogwyr yn anodd

¹⁶ Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST).

oherwydd, ni waeth pa le oedd yn cael ei ddewis, roedd angen i rai o'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant o leiaf deithio dros bellteroedd cymharol hir i'w gyrraedd. Daethpwyd ar draws heriau tebyg o ran teithio a mynediad mewn ardaloedd lleol mewn perthynas â gallu rhai Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant i gael mynediad at feithrinfeydd eu lleoliadau gwaith (gweler isod).

- 3.19 Darparwyd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant gan gydgyssylltwyr y prosiect. Fodd bynnag, cafodd peth o'r hyfforddiant arbenigol ei ddarparu gan therapyddion iaith a lleferydd, yr NSPCC a darparwyr hyfforddiant iechydd a diogelwch allanol hefyd. Fel y nodwyd yn gynharach yn adran 3.3 newidiodd ffocws yr hyfforddiant rhwng Cam 1af ac Zil Gam y Prosiect i adlewyrchu'r lefel sefydlu a oedd newydd gael ei chyflwyno fel rhan o'r cymwysterau Gofal Plant.
- 3.20 Yn y rhan fwyaf o achosion cafodd y sesiynau hyfforddi arbenigol eu darparu mewn sesiynau grŵp yn yr un lle â'r holl hyfforddiant arall hefyd. Nododd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gyfranogodd eu bod yn hoffi'r sesiynau grŵp, nid dim ond oherwydd yr hyfforddiant yr oeddent yn ei gael ond hefyd oherwydd y rhyngweithio cymdeithasol gyda'u cyd-hyfforddeion y cawsant fudd ohono yn y broses. Fodd bynnag, roedd darparu'r hyfforddiant yn y ffordd hon yn golygu bod angen i'r prosiect recriwtio a hyfforddi isafswm o Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant mewn ardal benodol i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn modd cost-effeithiol. Roedd hyn yn un o'r prif resymau pam y cafodd y prosiect ei gyflawni yn ardaloedd awdurdodau lleol unigol yn hytrach na dull cyflawni rhanbarthol neu genedlaethol. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfyngiadau a osodwyd oherwydd COVID-19, nid oedd sesiynau hyfforddiant grŵp wyneb yn wyneb fel hyn yn gallu cael eu darparu mwyach.
- 3.21 Roedd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar-lein unwaith yr aildddechreuodd y prosiect ym mis Gorffennaf. Gosododd hyn rai cyfyngiadau ar yr hyfforddiant (gweler hefyd adran 4.4), ac nid oedd rhai agweddau ar yr hyfforddiant e.e. Cymorth Cyntaf yn gallu cael eu darparu a'u hasesu ar-lein a bu'n rhaid eu trefnu a'u darparu ar wahân ar gyfer pob grŵp, neu grwpiau llai, o

Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant. Cafodd yr elfennau ymarferol hyn o'r hyfforddiant eu darparu a'u hasesu'n llwyddiannus, serch hynny, er gwaethaf y cyfyngiadau a osodwyd gan COVID. Fe wnaeth y symudiad gofynnol i ddarpariaeth ar-lein yn bennaf amlygu rhai cyfleoedd hefyd – h.y. nid oedd rhaid i'r hyfforddiant gael ei ddarparu ar gyfer grwpiau mewn lleoliad wedi'i logi mwyach. Buodd hyn yn ei dro o gymorth i oresgyn rhai o'r heriau o ran teithio a nodwyd uchod ar gyfer cyfranogwyr mewn ardaloedd gwledig.

- 3.22 Roedd yr hyfforddiant yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth yr oedd ar y cyfranogwyr eu hangen i ddechrau gwaith fel Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant mewn lleoliad gofal plant. Roedd yr hyfforddiant yn arwain at gymhwyster lefel 2 mewn hylendid bwyd ac roedd yn gyson â Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac felly'n rhoi'r camau cyntaf i gyfranogwyr tuag at gymhwyster gofal plant. Un o nodau'r hyfforddiant oedd dangos i'r hyfforddeion ei fod o fewn eu gallu i gwblhau hyfforddiant o'r natur hon yn llwyddiannus ac felly nad oedd unrhyw beth iddynt ei ofni ynglŷn â dilyn, rywbryd yn y dyfodol, y cymhwyster gofal plant llawn a oedd yn ofynnol er mwyn iddynt weithio yn y sector. Nododd cydgysylltwyr y prosiect ac atgyfeirwyr at y prosiect fod llawer or Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi bod yn ddi-waith am beth amser, nad oedd rhai wedi gweithio erioed, a bod ganddynt ddiffyg hyder yn eu gallu i ymgysylltu ag unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Felly, ym marn cydgysylltwyr y prosiect, roedd dileu rhai o'r rhwystrau o ran ofn i hyfforddiant yn rhan bwysig o brofiad hyfforddi'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant
- 3.23 Ar y llaw arall, nododd un cydgysylltydd, er bod hybu hyder ymhlith Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn bwysig, ei bod hefyd yn bwysig rheoli eu disgwyliadau. Roedd cwpl o Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi disgwyl i'r hyfforddiant Gofal Plant ar Waith arwain at gymhwyster lefel 2 mewn gofal plant. Felly roedd rhaid i gydgyssylltwyr sicrhau bod Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn sylweddoli bod yr hyfforddiant yr oeddent yn ei gael trwy Gofal Plant ar Waith yn cynnig dechrau da tuag at ennill cymhwyster y mae ei angen arnynt i weithio yn y sector, ond y

byddai hyfforddiant pellach yn ofynnol cyn y gallent ddod yn ymarferydd cymwysedig.

- 3.24 Roedd cyflogwyr hefyd o'r farn bod yr hyfforddiant yn briodol a'i fod yn cynnig sylfaen wybodaeth gadarn i baratoi Cynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant i weithio mewn lleoliad gofal plant. Roedd cyflogwyr hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Cynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a ddyrannwyd iddynt eisoes wedi cwblhau rhywfaint o'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf a diogelu gofynnol cyn dechrau eu lleoliad gwaith. Pa na baent wedi'u cwblhau, nododd cyflogwyr y byddai angen iddynt fod wedi darparu'r hyfforddiant hwn ar gyfer Cynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant eu hunain fel rhan o'r broses sefydlu y maent yn ei darparu ar gyfer pob aelod newydd o staff. Roedd cyflogwyr hefyd yn cefnogi'r ffaith bod yr holl Gynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – gofyniad arall a bennir gan bob lleoliad cyn bod unrhyw Gynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn gallu dechrau gwaith.

Recriwtio cyflogwyr

- 3.25 Ochr yn ochr â recriwtio a hyfforddi Cynorthwyywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant, fe wnaeth cydgysylltwyr Gofal Plant ar Waith hefyd recriwtio cyflogwyr ar draws lleoliadau gofal plant i gyfranogi yn y prosiect a chytuno i roi lleoliad gwaith 12 wythnos i Gynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant. Cysylltodd cydgysylltwyr â darparwyr a oedd yn aelodau o'r Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd ac felly meithrinfeydd dydd oedd yr holl gyflogwyr a gyfranogodd. Nododd cyflogwyr eu bod wedi clywed am y Prosiect mewn amryw ffyrdd gan gynnwys cyflwyniadau a roddwyd yn nigwyddiadau rhwydweithio Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ogystal â thrwy gyswllt uniongyrchol gan gydgysylltwyr y prosiect. Nododd bron pob cyflogwr eu bod yn hapus gyda'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chael am y prosiect; dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn hapus iawn i gyfranogi yn y Prosiect.
- 3.26 I rai o'r cyflogwyr y cyfwelwyd â hwy, y cymhelliad i fod yn rhan o'r Prosiect oedd i lenwi rhai swyddi gwag yr oeddent yn eu hysbysebu ar y pryd. I gyflogwyr eraill, y cymhelliad i gyfranogi oedd er mwyn helpu unigolion i gael

swydd yn y diwydiant trwy gynnig profiad gwaith iddynt yn eu lleoliad er nad oeddent hwy o bosibl yn ceisio recriwtio unrhyw un yn eu lleoliad ar y pryd. Fe wnaeth rhai o'r cyflogwyr a gyfranogodd nad oeddent yn ceisio cyflogi aelod newydd o staff ar y pryd gadw'r Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant beth bynnag yn y diwedd wedi i'r lleoliad ddod i ben – gweler hefyd y drafodaeth am ddeilliannau yn adran 4.

3.27 Nododd cyflogwyr hefyd fod y ffaith bod rhoi lleoliad i Gynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant trwy brosiect Gofal Plant ar Waith yn cynnig cyfle i 'gael pâr ychwanegol o ddwylo' heb unrhyw gost hefyd yn gymhelliad.¹⁷ Nododd bron pob cyflogwr hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent wedi'i gael gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru yn y gorffennol ac felly bod y cyfle i gefnogi prosiect a oedd yn cael ei gydgyssylltu ganddynt hwy'n gymhelliad ychwanegol a wnaeth eu hannog i gyfranogi.

3.28 Nododd cydgysylltwyr y prosiect na wnaethant wynebu unrhyw heriau sylweddol i gael cefnogaeth cyflogwyr i gyfranogi yn y Prosiect. Yn wir, mewn rhai ardaloedd roedd nifer y cyflogwyr yr oedd arnynt eisiau cyfranogi'n uwch na nifer y Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant a recriwtiwyd i'r Prosiect – gan adael rhai cyflogwyr yn teimlo'n siomedig nad oeddent yn gallu darparu lleoliad ar gyfer Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant.

'Yng Nghaerdydd, nid oedd gennym ddigon o hyfforddeion ar gyfer nifer y meithrinfeydd a chanddynt ddiddordeb. Ac roedd rhai meithrinfeydd yn eithaf siomedig i beidio â chael hyfforddai'. (Un o gydgyssylltwyr y prosiect)

3.29 Ni wnaeth pob cyflogwr y cysylltwyd â hwy gyfranogi. Nododd cydgysylltwyr nad oedd ar rai darparwyr eisiau neu nad oeddent yn gallu cyfranogi yn aml am bod prentis newydd neu hyfforddai arall wedi ymuno â hwy'n ddiweddar iawn, a'u bod felly'n teimlo na allent ddarparu lleoliad gwaith ar gyfer Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant hefyd.

¹⁷ Er bod Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn cael tâl yn ystod y lleoliad gwaith roedd y cyflog yr oeddent yn ei gael yn cael ei ariannu gan y Prosiect ac felly nid oedd yn golygu unrhyw gostau ychwanegol i'r cyflogwyr a gyfranogodd.

Mae lleoliadau gofal plant sy'n aelodau o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru'n rhoi cyfrif am oddeutu 30 y cant o'r holl leoliadau gofal plant. Er bod ymgysylltu â'r lleoliadau hyn yn unig wedi esgor ar y gefnogaeth a'r cyfranogiad oedd yn ofynnol gan y Prosiect i gynnig lleoliadau gwaith i'r holl Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gyfranogodd, roedd hefyd yn golygu na chafodd 70% o ddarparwyr y cyfle i gyfranogi. Mae hyn yn cynnwys rhai lleoliadau chwarae sesiynol a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a gefnogir gan y Mudiad Meithrin. Gan bod rhai cyfranogwyr, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig, wedi nodi bod teithio i'r meithrinfeydd lle'r oeddent yn gwneud eu lleoliadau gwaith a chael mynediad atynt wedi bod yn gryn her ar adegau, gallai annog cronfa ehangach o ddarparwyr i gyfranogi, o bosib, fod wedi goresgyn rhai o'r heriau hyn. Gallai annog ystod ehangach o gyflogwyr gofal plant i gyfranogi fod wedi cynnig opsiynau ehangach i Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant o bosibl hefyd o ran y mathau o leoliadau gwaith y gallent fod wedi cwblhau eu lleoliad gwaith ynddynt, a gallai fod wedi cynnig cyfle i fwy o gyflogeion recriwtio staff o ansawdd da.

Y lleoliad gwaith

- 3.30 Yn dilyn y broses recriwtio, aeth cydgysylltwyr y prosiect yn ardal pob awdurdod lleol ati wedyn i baru Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd yn cyfranogi gyda chyflogwyr a oedd yn cyfranogi yn barod ar gyfer y lleoliadau gwaith. Gallu Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant i deithio i'r lleoliad gofal plant yn ystod y lleoliad gwaith oedd yr ystyriaeth gyntaf. Gan hynny, roedd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant fel arfer yn cael eu dyrannu i'r lleoliad meithrin a oedd agosaf at y lle yr oeddent yn byw. Fodd bynnag, roedd ffactorau eraill yn cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd gan gynnwys maint y lleoliadau a oedd yn cyfranogi. Nododd cydgysylltwyr y prosiect eu bod wedi ceisio, lle'r oedd yn bosibl, dyrannu Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant i leoliadau a oedd yn cyd-fynd â'u personoliaethau. Er enghraifft, roedd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd yn hyderus ac yn 'rhadlon' yn cael eu dyrannu i leoliadau mwy a rhai a oedd yn aml yn brysurach. Roedd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan

Hyfforddiant a oedd yn llai hyderus yn cael eu dyrannu i leoliadau tawelach, llai lle'r oeddent yn llai tebygol o gael eu 'llethu' gan yr amgylchedd.

- 3.31 Nododd cydgysylltwyr y prosiect enghreifftiau lle'r oeddent wedi rhannu rhestr o gyflogwyr lleol a oedd yn cyfranogi gyda'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ac wedi gofyn iddynt a oedd ganddynt unrhyw ddewisiadau o ran ble yr hoffent gael eu lleoli. Gofynnodd rhai Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ar y cam hwn am gael eu dyrannu i leoliadau penodol, a nododd cydgysylltwyr y prosiect eu bod wedi ceisio cydymffurfio â hyn hyd y gallent.
- 3.32 Ni chafodd cyflogwyr a oedd yn cymryd rhan ar y llaw arall gyfle i ddewis pa Gynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yr oeddent am ei gael. Cafodd rhai lleoliadau'r cyfle i gwrdd â'r Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant cyn iddynt ddechrau eu lleoliad, ond nid cyfweiliad na rhan o broses ddethol oedd hyn. Roedd y rhan fwyaf o gyflogwyr y cyfweiliad â hwy'n hapus gyda'r trefniant hwn. Cyfeiriodd rhai cyflogwyr at y ffaith eu bod yn ymddiried yng Nghymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru a'u bod felly'n hyderus y byddent yn dyrannu Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant iddynt a oedd yn addas ar gyfer eu lleoliad. Fodd bynnag, nododd un cyflogwr y byddai wedi hoffi rhagor o wybodaeth am y Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gafodd leoliad gyda hwy cyn iddynt ddechrau.
- 3.33 Nododd cydgysylltwyr y prosiect y byddai Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn cwrdd â'r feithrinfa cyn y gallent ddechrau eu lleoliad gwaith i gynnal archwiliad iechyd a diogelwch a gofyn i'r cyflogwr gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol. Cyn y pandemig, roedd y tasgau hyn yn cael eu cyflawni yn ystod ymweliadau gan y cydgysylltwyr â phob un o'r lleoliadau – fodd bynnag, ar ôl ailddechrau'r prosiect ym mis Gorffennaf 2020, roedd y tasgau hyn yn cael eu gwneud ar-lein. Nododd y rhan fwyaf o gyflogwyr eu bod yn hapus gyda'r broses asesu gychwynnol hon. Fodd bynnag, nododd un cyflogwr fod y broses, yn eu geiriau hwy, 'wedi bod yn fwy o ymdrech na'i werth'. Roedd y cyflogwr hwn wedi cael cais ar dri achlysur i gyflwyno'r un wybodaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a phrotocolau diogelwch COVID-19 a oedd ar waith ganddynt. Byddai'n ymddangos bod y sefyllfa hon

wedi digwydd oherwydd newid mewn cydlynwyr prosiectau yn yr ardal yn ystod cyfnod byr ar y pryd, a diffyg trosglwyddo gwybodaeth o un cydgysylltydd i'r llall.

- 3.34 Nododd y rhan fwyaf o gyflogwyr fod y lleoliad gwaith wedi mynd yn dda ac, yn dilyn y broses gyflwyno a sefydlu arferol y mae pob aelod o staff yn ei chael, bod y Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi cael eu rhoi ar waith yn helpu lle'r oedd eu hangen. Nododd llawer o'r cyflogwyr eu bod yn ddiolchgar am y 'pâr ychwanegol o ddwylo yr oedd y Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn eu darparu.
- 3.35 Fodd bynnag, nododd ychydig o gyflogwyr, yn eu tyb hwy, nad oedd yr 16 awr o waith yr wythnos yr oedd y Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn ei wneud yn ddigon i'r Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant gael profiad llawn o'r holl dasgau beunyddiol a gyflawnir yn y lleoliad neu chwarae digon o ran yn y tasgau hynny. Nododd cyflogwyr eraill nad oeddent wastad yn siŵr pa fath o dasgau yr oedd disgwyl i Gynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant eu gwneud neu yr oeddent yn cael eu gwneud a pha rai nad oedd disgwyl iddynt neu nad oeddent yn cael eu gwneud. Er enghraifft, nododd un darparwr nad oedd yn siŵr, am resymau diogelu, a oedd Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant y prosiect Gofal Plant ar Waith yn eu lleoliad yn cael newid cewynnau'r plant llai. Nododd y cyflogwyr hyn y byddent wedi croesawu rhagor o arweiniad gan y cydgysylltydd Gofal Plant ar Waith o ran beth oedd disgwyl i'r Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant ei wneud yn ogystal â beth oedd disgwyl iddynt hwy fel lleoliad ei wneud.
- 3.36 Nododd bron pob cyflogwr mai ychydig iawn, y tu hwnt i gofnodi presenoldeb wythnosol y Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant, oedd yn cael ei ddisgwyl ganddynt o ran data monitro neu ddata ar gynnydd yr oedd yn rhaid iddynt ei ddarparu ar gyfer cydgysylltydd y prosiect. Fe wnaethant nodi hefyd ei bod yn glir bod cydlynnydd y prosiect ar gael ac y gellid cysylltu â hwy unrhyw bryd os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau neu os oeddent yn dod ar draws unrhyw broblemau. Roedd cyflogwyr yn gwerthfawrogi hyn gan ddweud

ei fod wedi gwneud y broses o roi lleoliad gwaith i Gynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn 'rhwydd iawn'.

'Unwaith y mae'r Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn ei le, rydym yn syml yn cysylltu â'r cyflogwr ar ddiwedd pob wythnos i wirio bod popeth yn iawn a hefyd i wirio oriau gwaith yr hyfforddai. (Un o gydgyssylltwyr y prosiect)

- 3.37 Nododd bron pob cyflogwr eu bod yn fodlon iawn ar agwedd a gallu'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a roddwyd iddynt ar gyfer lleoliadau gwaith, ac ni ddywedodd unrhyw un o'r cyflogwyr eu bod wedi cael unrhyw anawsterau mawr yn ystod y lleoliad. Fodd bynnag, dywedodd cwpl o gyflogwyr a oedd wedi rhoi lleoliad i fwy nag un Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn ystod cyfnod y prosiect ei bod yn amlwg nad oedd rhai Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn addas iawn ar gyfer gofal plant. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi ei bod yn well iddynt hwy fel cyflogwyr ac i'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant eu hunain sylweddoli hyn yn ystod lleoliad gwaith nag ar ôl iddynt ymrwymo i gontract cyflogaeth. Serch hynny, ni wnaeth yr un o'r cyflogwyr na chydgyssylltwyr y prosiect nodi bod unrhyw un o'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi gadael y lleoliad am nad oeddent yn dymuno gweithio yn y feithrinfa.

'Nid oes unrhyw un wedi gorffen [y lleoliad gwaith] yn gynnar am eu bod wedi penderfynu nad oedd yn iawn iddynt hwy.' (Un o gydgyssylltwyr y prosiect)

- 3.38 Nododd Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a chyflogwyr eu bod yn croesawu'r cyfle a gynigiwyd iddynt gan y lleoliad i weld a oeddent yn addas ar gyfer gwaith gofal plant a'r feithrinfa a ddyrannwyd iddynt. Defnyddiodd llawer o'r cyflogwyr a'r sefydliadau atgyfeirio'r term 'cyfweliad deuddeg wythnos am swydd' i ddisgrifio'r cyfnod ar leoliad.
- 3.39 Nododd cwpl o sefydliadau atgyfeirio bwysigrwydd a budd, yn eu tyb hwy, y ffaith bod y Prosiect yn cynnig lleoliad gwaith â thâl, yn hytrach na heb dâl, i'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant. Roedden nhw o'r farn bod hyn yn sicrhau bod y Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan go iawn o'r gweithlu, yn hytrach na 'llafur am ddim'. Aeth y sefydliadau atgyfeirio hyn ymlaen i egluro bod cael

cyflog, yn hytrach na budd-dâl diweithdra, yn ystod y lleoliad gwaith yn dangos i'r cyfranogwyr a oedd yn Gynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant bod cyflogaeth â thâl, hyd yn oed cyflogaeth ran-amser, yn opsiwn dichonadwy iddynt.

- 3.40 Nododd Cynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ar y cyfan eu bod wedi mwynhau'r cyfnod ar leoliad gwaith a'u bod wedi elwa llawer o'r broses, o ran profiad a hyder. Fe wnaethant nodi hefyd eu bod yn teimlo'u bod wedi cael cefnogaeth dda gan y lleoliad yn ogystal â chydgyssylltydd y prosiect trwy gydol y cyfnod o 12 wythnos y buont ar leoliad. Nododd cydgysylltwyr y prosiect hefyd eu bod wedi sicrhau eu bod yn cadw cysylltiad agos â Chynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn gan gynnig cymaint o gymorth mentora iddynt ag oedd ei angen arnynt. Nododd cydgysylltwyr mai'r lleoliad gwaith, i lawer o gyfranogwyr, oedd eu profiad cyntaf o fynd i mewn i amgylchedd gwaith am amser hir – mewn rhai achosion, y tro cyntaf erioed. Felly i rai o'r cyfranogwyr hyn roedd y profiad o wneud y lleoliad gwaith yn gallu bod yn 'frawychus'. Roedd cynnig cymorth mentora i'r unigolion hyn i'w helpu i oresgyn unrhyw ofnau neu ansicrwydd a oedd ganddynt – yn enwedig yn ystod wythnosau cyntaf y lleoliad – yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o'r Prosiect.

Deilliannau a gyflawnwyd

- 3.41 Ar gyfer 2il Gam y Prosiect gosodwyd targed i gynorthwyo 50 y cant o'r holl gyfranogwyr i gael cyflogaeth, rhaglen brentisiaeth neu hyfforddiant arall. Er gwaethaf cyfyngiadau COVID, aeth y prosiect y tu hwnt i'w darged o ran ymgysylltu â chyfranogwyr (gan ymgysylltu â 93 o'i gymharu â tharged o 84) a chefnogodd ddeilliannau cyflogaeth ar gyfer 44 o gyfranogwyr (36 wedi cael cyflogaeth ac 8 wedi cael prentisiaethau) o'i gymharu â tharged o 42.
- 3.42 Fodd bynnag, roedd cyfleoedd cyflogaeth i Gynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn gyfyngedig yn y cyfnod yn union ar ôl cyflwyno cyfyngiadau symud cychwynnol y pandemig ym mis Mawrth 2020. Caeodd llawer o leoliadau meithrin ar yr adeg hon ac felly nid oeddent mewn sefyllfa i gynnig unrhyw swyddi gwag. Roedd hyn hefyd yn golygu bod cynigion o swyddi a

oedd wedi cael eu gwneud i Gynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn union cyn y cyfnod ym mis Mawrth 2020 wedi cael eu tynnu'n ôl. Felly mae gallu'r prosiect i ddwyn y deilliannau y mae wedi'u cyflawni yng ngoleuni'r heriau hyn yn aruthrol.

- 3.43 Ochr yn ochr ag enghreifftiau o gyflogwyr yn cynnig swydd i'r Cynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ar ddiwedd y lleoliad i lenwi swydd wag bresennol yn y lleoliad, mae enghreifftiau wedi dod i'r amlwg hefyd o gyflogwyr a oedd wedi cynnig swydd i'r Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant ar ddiwedd eu lleoliad, er nad oedd gan y lleoliad unrhyw fwriad o wneud hynny ar ddechrau'r Prosiect. Nododd un lleoliad hyn yn oed eu bod mor hapus gyda'r Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant a ddyrannwyd iddynt fel eu bod wedi creu swydd yn y feithrinfa iddynt ar ddiwedd y lleoliad i wneud yn siŵr y byddent yn gallu eu cadw o fewn eu gweithlu. Mae llawer o'r Cynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant hyn wedi aros yn eu swyddi ac mae rhai a gafodd gyflogaeth yn ystod Cam 1af y Prosiect bellach wedi mynd ymlaen i ennill cymhwyster gofal plant lefel 3.
- 3.44 Cafodd pum Cynorthwyydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant gynnig swydd ar ddiwedd eu lleoliad ond nid oeddent yn gallu ei derbyn naill ai am ei bod yn golygu mwy o oriau nag yr oeddent hwy'n gallu ymrwymo iddynt neu am nad oedd yn opsiwn dichonadwy iddynt o safbwynt ariannol gan bod y swydd yn cynnig rhy ychydig o oriau neu fod y cynnig yn un ar gyfer contract dim oriau. Cafodd rhai Cynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant gynnig prentisiaeth yn y lleoliad ond eto nid oeddent yn gallu ymdopi ar yr incwm y byddent wedi ei gael am hyn a / neu ymrwymo i'r oriau o hyfforddiant a dysgu a oedd yn ofynnol – yn enwedig os oedd ganddynt deulu i'w gynnal. Darparwyd cwpl o enghreifftiau hefyd o Gynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd wedi cael cynnig swydd ond nad oeddent yn gallu ei derbyn am nad oedd ganddynt fynediad at gludiant i deithio i'r swydd bob dydd.
- 3.45 Fel y nodwyd yn gynharach, fe wnaeth rhai Cynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd yn meddwl i ddechrau bod arnynt eisiau dilyn gyrfa ym maes gofal plant sylweddoli yn ystod y lleoliad nad hon oedd y swydd iddynt

hwy. Cyfeiriodd un o gydgysylltwyr y prosiect at enghraifft o Gynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant a oedd wedi bod yn gweithio fel cogydd yn flaenorol ac a oedd yn dymuno gweithio gyda phlant. Fodd bynnag, sylweddolion nhw ar ôl eu lleoliad nad oeddent yn dymuno bod yn ymarferydd gofal plant ond arweiniodd eu lleoliad at gael gwaith fel cogydd mewn lleoliad gofal plant.

- 3.46 Serch hynny, ni chafodd pedwar deg naw o Gynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant gynnig swydd ar ddiwedd eu lleoliad – yn y rhan fwyaf o achosion y rheswm dros hyn oedd nad oedd swydd wag gan y lleoliad iddynt ar y pryd. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed y Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant na chawsant waith o'r farn bod eu cyfranogiad yn y Prosiect wedi'u rhoi mewn sefyllfa gryfach o lawer i gael cyflogaeth yn y dyfodol. Roedd hon yn farn a adleisiwyd gan gydgysylltwyr y prosiect ac asiantaethau atgyfeirio.
- 3.47 Tynnodd cydgysylltwyr sylw at y ffaith bod y sgiliau a'r hyfforddiant a gafodd y Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant trwy'r Prosiect wedi rhoi iddynt yr holl wybodaeth sylfaenol y mae arnynt ei hangen i ddod yn newydd-ddyfodiaid yn y sector gofal plant, a'u bod felly mewn sefyllfa gref i ymgeisio am y swyddi hyn pan fyddant yn codi. Fe wnaeth yr hyfforddiant hefyd ddarparu cymwysterau a sgiliau trosglwyddadwy y gallai cyfranogwyr eu cymhwyso i rolau mewn swyddi eraill pe baent yn dymuno. Mae'r sgiliau hyn, ynghyd â'r profiad gwaith ymarferol a gafwyd o'r lleoliadau gwaith, bellach yn briodoleddau cadarnhaol y gallant eu cynnwys ar eu CV. Fe wnaeth asiantaethau atgyfeirio bwysleisio pwysigrwydd hyn, yn enwedig i'r rhai sydd wedi bod allan o waith am beth amser, gan bod canfod rhywbeth diweddar a pherthnasol i'r unigolion hyn ei roi ar eu CV yn aml yn gallu bod yn her. Fe wnaeth Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant, cydgysylltwyr a sefydliadau atgyfeirio hefyd nodi'r hyder cynyddol yr oeddent wedi'i weld ymhlith cyfranogwyr y prosiect a bod hyn hefyd yn ffactor a fyddai'n eu cynorthwyo i gael cyflogaeth neu gael mynediad at hyfforddiant pellach yn y dyfodol agos.

Cymorth a roddwyd i Gynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ar ôl eu lleoliad

- 3.48 Parhaodd y Prosiect Gofal Plant ar Waith i gynnig cymorth am hyd at 4 wythnos ar ôl i'r lleoliad ddod i ben, ar gyfer cyfranogwyr na wnaethant ddiweddu mewn cyflogaeth na hyfforddiant ar ddiwedd eu lleoliad. Rhoddwyd y cymorth gan gydgysylltwyr y prosiect ac roedd wedi'i deilwra i'r hyn yr oedd y cyfranogwyr yn bwriadu ei wneud neu yr oedd arnynt eisiau ei wneud nesaf. I rai cyfranogwyr, y maes cyntaf lle'r oedd angen cymorth arnynt oedd i'w helpu i ddiweddarau eu CV fel ei fod yn adlewyrchu'r holl sgiliau a phrofiad yr oeddent wedi'u cael trwy'r Prosiect. Fe wnaeth cydgysylltwyr helpu cyfranogwyr hefyd i gylchredeg eu CVs wedi'u diweddarau i feithrinfeydd lleol a allai fod yn cyflogi. Cafodd Cynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant eraill gymorth i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi pellach yr oedd arnynt eisiau eu canlyn.
- 3.49 Mewn rhai achosion, cafodd y cyfranogwyr eu hatgyfeirio at sefydliad cymorth cyflogaeth arall. Fodd bynnag, nid oedd hi wastad yn bosibl atgyfeirio cyfranogwyr yn ôl at y sefydliad atgyfeirio a'u hatgyfeiriodd at y Prosiect yn wreiddiol. Y rheswm dros hyn oedd bod y cyfranogwyr wedi cael cyflogaeth â thâl yn ystod y lleoliad ac mai dim ond unigolion sydd heb fod mewn cyflogaeth â thâl am 12 mis neu'n hwy y gall rhaglenni cymorth megis C4W eu cefnogi. Fodd bynnag, yn ystod 2020, cafodd cydgysylltwyr y prosiect y cyfle i atgyfeirio cyfranogwyr a oedd yn dal i fod heb waith neu a oedd heb gael mynediad at unrhyw hyfforddiant 4 wythnos ar ôl diwedd y lleoliad at Cymru'n Gweithio.¹⁸ Mae hwn yn wasanaeth cymharol newydd sy'n cynorthwyo unigolion dros 16 oed i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth.
- 3.50 Nododd cydgysylltwyr y prosiect fod rhai cyfranogwyr wedi penderfynu, ar ddiwedd y lleoliad, nad oeddent yn awyddus mwyach i fynd ar drywydd cyfleoedd pellach ar gyfer cyflogaeth ym maes gofal plant. Cafodd rhain hefyd gynnig cymorth i fynd ar drywydd opsiynau cyflogaeth eraill. Er enghraifft, cyfeiriodd un cydgysylltydd at enghraifft o gyfranogwr yr oeddent wedi'i helpu i

¹⁸ [Taflen ynglŷn â Cymru'n Gweithio Ion 2021 - Cymraeg \(llyw.cymru\)](#)

gael cyflogaeth mewn maes arall o fewn y sector gofal yn ystod y cyfnod hwn o gymorth ar ôl y lleoliad.

4. Effaith COVID-19 ar berfformiad a deilliannau'r Prosiect

- 4.1 Dechreuodd cyfyngiadau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth, ar ganol cyfnod cyflawni 2il Gam y Prosiect. Caeodd nifer o leoliadau gofal plant o ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn ac nid oedd modd hwyluso'r elfen hyfforddiant wyneb-yn-wyneb o'r Prosiect. Felly nid oedd yn bosibl parhau â'r Prosiect yn ystod y cyfnod hwn a chafodd ei atal dros dro am gyfnod cychwynnol o 3 mis a chafodd cydgysylltwyr y prosiect eu rhoi ar ffyrlo. Rhoddwyd estyniad o dri mis ar y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r prosiect hefyd, sef tan fis Mawrth 2021.
- 4.2 Ar yr adeg hon, roedd cyfranogwyr y Prosiect eisoes wedi cwblhau eu hyfforddiant a'u lleoliadau gwaith mewn 6 o'r 10 ardal awdurdod lleol a oedd yn cyfranogi (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Caerffili, Conwy a Wrecsam). Fodd bynnag, ar gyfer y pedair ardal awdurdod lleol a oedd yn weddill (Gwynedd, Ynys Môn, Casnewydd a Thorfaen) roedd y Prosiect naill ai newydd ddechrau'r broses recriwtio neu nid oedd wedi dechrau o gwbl eto.
- 4.3 Cafodd y pandemig effaith ar gyflawni ac ar ddeilliannau'r prosiect ar draws pob ardal a oedd yn rhan ohono. Er enghraifft, yng Ngwynedd, roedd saith cyfranogwr eisoes wedi cael eu recriwtio i'r rhaglen ac wedi dechrau eu hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2020. Wedyn cafodd y Prosiect ei atal dros dro tan fis Awst 2020, ac erbyn hynny roedd pedwar cyfranogwr wedi gadael y Prosiect ac nid oedd amser i recriwtio cyfranogwyr eraill cyn y gallai'r hyfforddiant ailddechrau. Ar draws ardaloedd y chwe awdurdod lleol lle'r oedd y Prosiect wedi cael ei gwblhau, fe wnaeth rhai o'r Cynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant, a oedd wedi sicrhau cyflogaeth yn flaenorol yn dilyn eu lleoliad gwaith, golli eu swyddi am bod y lleoliadau yr oeddent yn gweithio ynddynt wedi gorfod cau dros dro. Cafodd ychydig o Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wybod hefyd gan eu cyflogwr yn y feithrinfa lle'r oeddent wedi cwblhau eu lleoliad y byddent o bosibl mewn sefyllfa i gynnig swydd i'r Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant pan fyddai cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu llacio, ond nid oeddent yn gallu rhoi unrhyw sicrwydd pryd y byddai hyn yn digwydd na hyd yn oed pa un a fyddai'n digwydd.

- 4.4 Pan ailddechreuodd y Prosiect ar draws ardaloedd y pedwar awdurdod lleol a oedd yn weddill, bu'n rhaid newid y dull o'i gyflawni oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Roedd yn rhaid i'r holl weithgarwch recriwtio a'r cyfweiliadau cychwynnol gael eu gwneud dros y ffôn neu ar-lein. Cafodd y cyfnod hyfforddi o dair wythnos ei wneud ar-lein hefyd (ar wahân i'r asesiad ymarferol Cymorth Cyntaf yr oedd yn rhaid ei wneud o fewn lleoliadau dynodedig). Roedd rhai o'r cydgysylltwyr yn teimlo bod gorfod cyflawni elfennau o'r Prosiect ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb yn golygu bod rhywfaint o'r 'cyffyrddiad personol' a fu'n gysylltiedig â'r Prosiect wedi cael ei golli. Roedd y cydgysylltwyr hyn o'r farn nad oedd mor hawdd meithrin cydberthynas â chyfranogwyr ar-lein ag ydoedd yn ystod cyswllt wyneb-yn-wyneb. Fe wnaethant hefyd leisio pryderon nad oedd cyfranogwyr yn magu'r un lefel o hyder, brwdfrydedd a chyfeillgarwch gyda'u Cyd-gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant ar-lein ag yr oeddent yn ei wneud yn ystod sesiynau hyfforddiant grŵp. Fodd bynnag, nododd cydgysylltydd arall fod y sylwadau yr oedd wedi'u cael o ffurflenni gwerthuso a gwblhawyd gan Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant Gofal Plant ar Waith a oedd wedi gwneud eu hyfforddiant ar-lein yn awgrymu eu bod 'wir wedi mwynhau' yr hyfforddiant ac 'wedi dysgu llawer'.
- 4.5 Nododd cydgysylltwyr y prosiect hefyd fod darparu'r hyfforddiant ar-lein wedi dwyn nifer o fanteision. Fel y nodwyd yn 3.20 uchod, roedd darparu'r hyfforddiant ar-lein wedi cael gwared ar rai o'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â darparu hyfforddiant wyneb-yn-wyneb, gan gynnwys darparu ar gyfer grwpiau o gyfranogwyr mewn ardal benodol. Cafodd wared hefyd ar rai o'r costau a oedd yn gysylltiedig â llogi lleoliadau i ddarparu'r hyfforddiant. Defnyddiodd arweinwyr y prosiect Gofal Plant ar Waith Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru yr arian a arbedwyd trwy beidio â llogi lleoliadau hyfforddi i logi gliniaduron y gallent eu rhoi ar fenthyg i gyfranogwyr i'w galluogi i gael mynediad at yr hyfforddiant ar-lein a oedd yn cael ei ddarparu a sicrhau ei fod yr un mor hygyrch i bawb.
- 4.6 Mae pandemig COVID-19 wedi amharu ar gyflawni'r Prosiect ac, mewn rhai achosion, wedi lleihau nifer yr unigolion sydd wedi cyfranogi ynddo. Fe wnaeth cau llawer o leoliadau gofal plant dros dro hefyd gyfyngu ar y cyfleoedd ar

gyfer deilliannau cyflogaeth i Gynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gyfranogodd yn 2il Gam y Prosiect, cyn ac ar ôl i'r pandemig daro. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn, fe wnaeth y Prosiect gyrraedd ei dargedau a, mewn nifer o achosion, mynd y tu hwnt iddynt mewn perthynas â nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy a'r deilliannau cyflogaeth a gyflawnwyd.

5. Gofal Plant ar Waith fel model ar gyfer recriwtio a chymorth cyflogaeth

Gofal Plant ar Waith fel model cymorth recriwtio ar gyfer cyflogwyr

- 5.1 Roedd rhai o'r cyflogwyr a gyfranogodd yn y Prosiect o'r farn bod nod Gofal Plant ar Waith, a'u cyfranogiad hwythau ynddo, yn gyfle o bosibl i recriwtio staff ychwanegol i lenwi swydd wag a oedd ganddynt yn barod yn eu lleoliad. Roedd cyflogwyr eraill o'r farn bod eu cyfranogiad a nod y Prosiect yn fodd i gynorthwyo unigolion i gael profiad o weithio ym maes gofal plant er mwyn iddynt allu cael cyflogaeth yn y sector yn y dyfodol. I ryw raddau roedd barn cyflogwyr am y Prosiect yn ddibynnol ar y ffordd yr oedd cydgysylltwyr yn hyrwyddo'r Prosiect iddynt. Nododd rhai cyflogwyr fod cydgysylltwyr y prosiect wedi cysylltu â hwy ac wedi gofyn a fyddent yn barod i 'roi help llaw' trwy gynorthwyo unigolion i gael profiad gwaith. Nododd cyflogwyr eraill fod y Prosiect wedi cael ei hyrwyddo iddynt fel modd i fynd i'r afael o bosibl â heriau o ran recriwtio yr oeddent yn eu hwynebu. Gan bod y Prosiect yn amcanu at gefnogi'r ddau nod yma, nododd cydgysylltwyr y Prosiect eu bod wedi hyrwyddo'r Prosiect i gyflogwyr mewn ffordd a oedd yn gweddu orau i amgylchiadau eu lleoliad ar y pryd.
- 5.2 Serch hynny, sut bynnag y cafodd Gofal Plant ar Waith ei hyrwyddo i gyflogwyr a beth bynnag oedd barn gychwynnol cyflogwyr am brif nod y Prosiect, roedd y rhan fwyaf o gyflogwyr o'r farn bod Gofal Plant ar Waith yn ei gynnig ei hun fel model recriwtio posibl y byddai ganddynt hwy ddiddordeb mewn cael mynediad ato eto yn y dyfodol. Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r

adroddiad hwn, fe wnaeth rhai cyflogwyr nad oeddent yn ceisio recriwtio staff newydd pan ymgysyllton nhw â'r Prosiect gyntaf gynnig swydd yn y diwedd i'r Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant a gafodd lleoliad gwaith yn eu meithrinfa.

- 5.3 Nododd y rhan fwyaf o gyflogwyr fod eu proses recriwtio arferol yn golygu hysbysebu swyddi gwag ar y cyfryngau cymdeithasol a / neu yn y wasg leol er mwyn denu ymgeiswyr. Wedyn, fel arfer byddai ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i ddod am gyfweiliad, a oedd yn golygu mewn rhai achosion bod yr ymgeisydd yn cyfranogi mewn sesiwn gofal plant ymarferol yn y lleoliad. Nododd cyflogwyr raddau amrywiol o lwyddiant gyda'r dull recriwtio hwn. Nododd rhai ei bod yn addas recriwtio unigolion a oedd â hanes da a phrofiad o weithio yn y sector gofal plant yn y ffordd yma. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn cytuno ei bod yn anodd iawn cael argraff go iawn o addasrwydd ymgeisydd o gyfweiliad byr yn unig.

'Mae rhai pobl yn perfformio'n dda iawn mewn cyfweiliad, ond pan ydynt yn dechrau gwaith rydych yn sylweddoli nad ydynt wir yn cwrdd â'ch disgwyliadau' (Cyflogwr yn y sector gofal plant)

- 5.4 Roedd cyflogwyr yn aml yn cyfeirio at Brosiect Gofal Plant ar Waith fel proses gyfweled a oedd yn para am 12 wythnos, pan oeddent yn dod i adnabod y Cynorthwydd Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn dda ac felly'n asesu eu haddasrwydd i weithio yn eu lleoliad yn llawn.
- 5.5 Nododd rhai cyflogwyr mai eu prif broses recriwtio oedd rhoi swyddi i brentisiaid, pobl oedd yn gadael yr ysgol neu'r coleg yn bennaf. Yn aml roedd gan y cyflogwyr hyn gysylltiadau â cholegau lleol ac roeddent yn cynnig lleoliadau gwaith gwirfoddol i fyfyrwyr prentisiaeth a oedd yn astudio yno. Roedd hyn yn cynnig y cyfle i'r cyflogwr ddod i adnabod unigolion yn yr un ffordd ag yr oedd y lleoliadau gwaith Gofal Plant ar Waith yn ei wneud, cyn cynnig swydd neu brentisiaeth lawn-amser iddynt. Nododd cyflogwyr mai mantais rhoi swyddi i unigolion yn syth o'r coleg oedd y gallent fod yn hyderus bod yr unigolion hyn yn ymrwymedig ac yn frwdfrydig i weithio yn y sector gofal plant. Fodd bynnag, nododd y cyflogwyr hyn hefyd fod pobl sy'n gadael y

coleg fel arfer yn ifanc iawn ac yn aml heb y sgiliau bywyd sydd gan ymgeiswyr hŷn.

- 5.6 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn awgrymu bod y Prosiect Gofal Plant ar Waith yn cynnig llwybr recriwtio ychwanegol i gyflogwyr sy'n ategu dulliau recriwtio mwy traddodiadol sydd eisoes yn cael eu defnyddio, megis cyfweiliadau i recriwtio gweithwyr profiadol a phrentisiaethau i recriwtio pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod y Prosiect yn galluogi cyflogwyr i recriwtio mwy o unigolion i mewn i'r sector heb gau neu wthio unrhyw rai eraill allan, e.e. pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg a / neu weithwyr gofal plant profiadol, hŷn.

Gofal Plant ar Waith fel model cymorth cyflogaeth ar gyfer unigolion di-waith

- 5.7 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn nodi bod nifer o gyfranogwyr yn y Prosiect a oedd yn Gynorthwywyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant wedi cael swydd ar ddiwedd y Prosiect yn y lleoliad gofal plant lle cawsant eu lleoliad gwaith. Roedd y cyfranogwyr hyn wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 12 mis, ac ychydig iawn o brofiad blaenorol, os o gwbl, oedd ganddynt o weithio mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol.
- 5.8 Roedd sefydliadau atgyfeirio'n siarad yn gadarnhaol iawn am allu'r Prosiect i gynorthwyo unigolion i gael cyflogaeth. Fe wnaethant nodi y byddai'r mwyafrif, os nad pob un, o'r cyfranogwyr a atgyfeiriwyd ganddynt at y Prosiect heb hyd yn oed cael eu hystyried ar gyfer cyflogaeth mewn unrhyw leoliadau gofal plant heb gymorth y Prosiect.

"Hon [Gofal Plant ar Waith] yw'r rhaglen orau yr wyf wedi atgyfeirio unrhyw un ati erioed (Sefydliad atgyfeirio / cymorth cyflogaeth)

- 5.9 Yn ôl sefydliadau atgyfeirio, er bod yr unigolion a atgyfeiriwyd ganddynt at y Prosiect yn dangos, yn eu tyb hwy, agweddau a brwdfrydedd a oedd yn eu gwneud yn addas iawn i weithio ym maes gofal plant ffurfiol, nid oedd ganddynt unrhyw beth i ddangos hyn y gallent ei gynnwys ar eu CV. O ganlyniad, roedd cyflogwyr yn annhebygol iawn o hyd yn oed ystyried cais gan yr unigolion hyn am unrhyw swyddi a allai fod ar gael ganddynt. Gan hynny,

mae'n bosibl dod i'r casgliad ei bod yn debygol na fyddai unrhyw ddeilliannau cyflogaeth a gefnogwyd trwy'r Prosiect hwn wedi cael eu cyflawni heb y cymorth a roddwyd, h.y. dim ond deilliannau cyflogaeth ychwanegol a gyflawnwyd gan y Prosiect ac nid oedd pwysau marw amlwg.

'Ceisio dod o hyd i gyfleoedd i wneud i gyflogwyr sylwi ar ein cwsmeriaid yw un o'r heriau mwyaf yr ydym yn eu hwynebu. Mae Gofal Plant ar Waith yn cynnig y cyfle i roi pobl o flaen cyflogwyr i ddangos iddynt beth allant ei wneud.' (Sefydliad atgyfeirio / cymorth cyflogaeth)

- 5.10 Roedd cynrychiolwyr sefydliadau atgyfeirio o'r farn mai'r cyfuniad o hyfforddiant sector-benodol a lleoliadau gwaith â thâl oedd y prif ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r hyn a oedd llwyddiant ar ran y prosiect yn eu tyb hwy. Roedd consensws hefyd ymhlith yr holl gynrychiolwyr sefydliadau atgyfeirio body Prosiect Gofal Plant ar Waith hefyd yn cynnig model i gynorthwyo unigolion di-waith i gael gwaith mewn sectorau penodol eraill.

Ffocws oedran Gofal Plant ar Waith

- 5.11 Caiff sail resymegol y Prosiect dros ganolbwyntio'r cymorth ar y rhai 25 oed a throsodd ei nodi yn adran 1 uchod. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn dynodi bod ffocws oedran y Prosiect yn briodol gan mai unigolion iau, o oedran ysgol a choleg yw'r rhan fwyaf o newydd-ddyfodiaid i'r sector fel arfer. Mae llwybrau cyflogaeth traddodiadol i mewn i'r sector gofal plant ar gyfer pobl dros 25 oed i'w gweld, yn y rhan fwyaf o achosion, fel pe na baent ond ar gael i'r rhai sydd â phrofiad blaenorol o weithio yn y sector. Fe wnaeth y prosiect Gofal Plant ar Waith ehangu'r llwybrau cyflogaeth hyn fel eu bod hefyd ar gael i unigolion dros 25 sydd heb unrhyw brofiad na chymwysterau gofal plant ffurfiol blaenorol. Adlewyrchwyd hyn yn y farn a fynegwyd gan sefydliadau atgyfeirio, cydgysylltwyr y Prosiect a chyflogwyr.
- 5.12 Nododd un cyflogwr fod ei brofiad o gyfranogi yn y Prosiect wedi newid ei agwedd at recriwtio a nododd y byddai yn awr yn ystyried cyflogi newydd-ddyfodiaid hŷn yn ei leoliad.

'Mae tueddiad i feddwl mai maes i bobl iau yw gofal plant. Ers cyfranogi yn y Prosiect mae'r staff bellach yn fwy ymwybodol o edrych ar oedran pobl sy'n dymuno gweithio ym maes gofal plant ac nid ydym yn syml yn diystyru ymgeiswyr am eu bod ychydig yn hŷn.' (Cyflogwr)

- 5.13 Fe wnaeth cyflogwyr eraill nodi manteision cyflogi pobl hŷn hefyd sydd, yn eu tyb hwy, 'wedi setlo' yn fwy gan eu bod wedi cael eu bod yn tueddu i fod yn fwy tebygol o fod eisiau aros yn eu swydd a bod hynny felly'n lleihau cyfraddau trosiant staff mewn lleoliadau.

6. Casgliadau

- 6.1 Roedd y Prosiect Gofal Plant ar Waith yn cynnig y cyfle i unigolion a oedd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir gael hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â gofal plant a chael mynediad at 12 wythnos o brofiad gwaith â thâl a oedd yn cael ei ariannu trwy'r Prosiect. O ganlyniad, llwyddodd y Prosiect i gynorthwyo llawer o'i gyfranogwyr i gael cyflogaeth â thâl yn y sector gofal plant. Mae'r Prosiect hefyd wedi cynorthwyo cyflogwyr yn y sector gofal plant i recriwtio unigolion addas fel cynorthwywyr meithrinfa dan hyfforddiant newydd i lenwi swyddi gwag a oedd ganddynt yn eu meithrinfeydd dydd.
- 6.2 Cyrhaeddodd Cam 1af y Prosiect ei dargedau ymgysylltu ac, er gwaethaf cyfyngiadau COVID, aeth yr 2il Gam y tu hwnt i'w darged ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr (gan ymgysylltu â 93 o'i gymharu â tharged o 84) a chefnogodd ddeilliannau cyflogaeth ar gyfer 44 o gyfranogwyr (36 wedi cael cyflogaeth ac 8 wedi cael prentisiaethau) o'i gymharu â tharged o 42.

Denu cyfranogwyr a'u cynorthwyo i ymuno â'r gweithlu gofal plant

- 6.3 Fe wnaeth cydgysylltwyr y Prosiect ymgysylltu'n llwyddiannus ag ystod o asiantaethau cymorth cyflogaeth i godi eu hymwybyddiaeth o'r Prosiect ac i'w hannog i atgyfeirio unigolion addas yr oeddent yn eu cefnogi a oedd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir at y rhaglen. Roedd asiantaethau cymorth cyflogaeth yn croesawu'r Prosiect ac yn ystyried ei fod yn 'unigryw' yn yr ystyr ei fod yn cynnig hyfforddiant sector-benodol i gyfranogwyr yn ogystal â phrofiad gwaith â thâl. O ganlyniad, roedd yr asiantaethau cyflogaeth yn barod iawn i atgyfeirio ymgeiswyr addas at y rhaglen.
- 6.4 Ymddengys fod y Prosiect yn addas iawn i rieni gan ei fod yn eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau a'r profiadau y maent wedi'u cael wrth ofalu am eu plant eu hunain. Mae'r modd y cyflawnir y Prosiect hefyd yn ddigon hyblyg i wneud lle i gyfrifoldebau gofal plant cyfranogwyr unigol. Ymddengys felly fod y Prosiect yn arbennig o addas ar gyfer unigolion a gefnogir gan PaCE.
- 6.5 Fe wnaeth cydgysylltwyr y Prosiect ymgysylltu'n llwyddiannus â niferoedd digonol o leoliadau gofal plant a'u hannog i gyfranogi yn y Prosiect a chytuno i

gynnig lleoliad gwaith am 12 wythnos i gyfranogwyr a oedd yn Gynorthwyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant. Roedd gan gyflogwyr wahanol resymau dros gyfranogi yn y Prosiect; roedd rhai'n ystyried ei fod yn gyfle i recriwtio staff newydd, tra bod eraill yn ystyried ei fod yn gyfle i gefnogi unigolion ar hyd eu siwrnai i gael cyflogaeth yn y sector.

- 6.6 Un rheswm cyffredin dros gyfranogi, a nodwyd gan yr holl gyflogwyr yr ymgynghorwyd â hwy, oedd eu bod yn ymddiried yng Nghymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru fel y sefydliad cyflawni a'u bod felly'n hyderus ac yn dawel eu meddwl bod y Prosiect yn werth chweil. Byddai'n ymddangos felly bod enw da Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru yn y sector gofal plant wedi sicrhau bod cydgysylltwyr y prosiect yn cael eu hystyried yn hwyluswyr dibynadwy ar gyfer y Prosiect a bod hyn yn ffactor allweddol a anogodd gyfranogwyr i gyfranogi. Ar ben hynny, byddai'n ymddangos bod yr angen i gynnal yr enw da hwn wedi sicrhau bod Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru wedi rhoi pwyslais arbennig ar recriwtio cyfranogwyr a oedd yn addas i ymgymryd â lleoliadau gwaith yn y lleoliadau a oedd yn cyfranogi. Mae'n debygol bod y cyfuniad hwn o ymddiriedaeth a sylw i recriwtio cyfranogwyr addas yn ffactor allweddol a gyfrannodd at y deilliannau cyflogaeth a gyflawnwyd.

Argymhelliad – Ymddengys fod llwyddiant y Prosiect Gofal Plant ar Waith yn ddibynnol i raddau helaeth ar gael ei gyflawni gan hwylusydd dibynadwy ac ar ei allu i recriwtio ymgeiswyr addas. Dylai unrhyw brosiect o'r natur hon yn y dyfodol geisio sicrhau bod y ddau ffactor hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hymgorffori yn y dyluniad o ran sut y caiff ei gyflawni.

- 6.7 Roedd rhan fwyaf o'r cyflogwyr a gyfranogodd yn aelodau o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru ac roeddent felly'n feithrinfeydd gofal dydd. Ni chafodd rhan fwyaf o leoliadau gofal plant eraill, gan gynnwys chwarae mynediad agored a gofal sesiynol gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyflenwir gan Gylchoedd Meithrin eu cynnwys. Gallai annog ystod ehangach o gyflogwyr gofal plant i gyfranogi fod wedi cynnig opsiynau

ehangach i Gynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant o bosibl hefyd o ran y mathau o leoliadau gwaith a oedd ar gael iddynt, a gallai fod wedi cynnig cyfle i fwy o gyflogaeth yn y sector ddefnyddio'r Prosiect fel modd i recriwtio staff o ansawdd da.

Argymhelliad – Dylai unrhyw brosiect o'r natur hon yn y dyfodol ystyried ehangu cyfranogiad i gynnwys ystod ehangach o ddarparwyr gan gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg a gefnogir gan y Mudiad Meithrin.

Paratoi cyfranogwyr ar gyfer cyflogaeth ac i symud ymlaen yn y sector gofal plant

- 6.8 Byddai'n ymddangos bod y cyfuniad o hyfforddiant sy'n berthnasol i'r diwydiant a phrofiad gwaith a gynnigir gan y Prosiect yn paratoi cyfranogwyr yn dda ar gyfer cyflogaeth lefel mynediad yn y sector gofal plant. Mae'r hyfforddiant yn rhoi sylfaen wybodaeth i gyfranogwyr sy'n eu paratoi i weithio yn y sector. Mae hefyd yn ategu lefel sefydlu'r gyfres newydd o gymwysterau gofal plant ac felly'n tywys cyfranogwyr ar hyd y camau cyntaf y mae eu hangen i gamu ymlaen tuag at hyfforddiant pellach a fydd yn arwain tuag at y cymwysterau gofal plant a chwarae lefel 2 a 3 y mae eu hangen arnynt i weithio yn y sector.

Argymhelliad – mae'r pecyn hyfforddi Gofal Plant ar Waith wedi cael ei deilwra gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru yn ystod y Prosiect hwn i sicrhau ei fod yn rhoi i unigolion yr holl wybodaeth sylfaenol y mae ei hangen arnynt fel newydd-ddyfodiaid i'r sector gofal plant. Dylid ystyried ymdrechion i barhau i ddarparu'r hyfforddiant hwn naill ai mewn prosiect ar wahân neu fel maes cymorth ychwanegol y gellid ei gynnig mewn rhaglenni cymorth cyflogadwyedd eraill.

- 6.9 Mae cynnig lleoliadau gwaith â thâl i gyfranogwyr yn sicrhau bod Cynorthwyyr Meithrinfa Dan Hyfforddiant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, sydd yn ei dro'n cynyddu eu hyder yn eu gallu i gamu ymlaen yn y sector. Mae talu cyflog i gyfranogwyr yn ystod y lleoliad gwaith hefyd yn eu galluogi i adolygu dichonolrwydd ariannol cael cyflogaeth â thâl.

Argymhelliad – Dylai unrhyw brosiectau cymorth cyflogaeth o'r natur hon yn y dyfodol ystyried cynnal y taliadau cyflog wedi'u hariannu a wnaed i gyfranogwyr yn ystod lleoliadau gwaith.

Ffactorau a oedd yn rhwystro ac yn galluogi pobl i gyfranogi yn y Prosiect

- 6.10 Fe wnaeth diffyg cludiant rwystro rhai cyfranogwyr rhag cael mynediad at y cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth a gefnogwyd gan y Prosiect, yn enwedig y rhai a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Fe wnaeth pandemig COVID-19 hefyd greu rhwystr i, a gosod cyfyngiadau ar gyflawni'r prosiect, cyfranogi ynddo a'r deilliannau a gefnogwyd ganddo.
- 6.11 Fe wnaeth cyflwyno trefniadau recriwtio a hyfforddiant ar-lein o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 osod rhai cyfyngiadau ar y cyswllt personol â chydberthynas bersonol a oedd yn rhan o ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyn y pandemig. Fodd bynnag, fe wnaeth darparu hyfforddiant ar-lein hefyd gael gwared ar rai o'r rhwystrau i hyfforddiant o ran teithio a mynediad y daethpwyd ar eu traws yn flaenorol. Fe wnaeth hyfforddiant ar-lein hefyd alluogi cydgysylltwyr y prosiect i ddarparu hyfforddiant ledled ardal ddaearyddol ehangach.

Argymhelliad – Mae cyrhaeddiad ehangach hyfforddiant ar-lein o'i gymharu â hyfforddiant grŵp wyneb-yn-wyneb yn cynnig ei hun i fodel hyfforddiant y gellir ei gyflawni'n rhanbarthol neu'n genedlaethol yn hytrach na phrosiect sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol. Dylid cymryd hyn i ystyriaeth yn nyluniad unrhyw brosiectau cymorth cyflogaeth o'r natur hon yn y dyfodol.

Gofal Plant ar Waith fel model ar gyfer cymorth recriwtio a chyflogaeth

- 6.12 Mae'r canfyddiadau'n nodi bod y Prosiect wedi cynorthwyo cyflogwyr i recriwtio unigolion hŷn i swyddi ar lefel mynediad yn y sector gofal plant heb

gau na gwthio unrhyw unigolion eraill allan e.e. pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg a / neu weithwyr gofal plant profiadol, hŷn.

- 6.13 Byddai hefyd yn ymddangos bod y Prosiect wedi datblygu llwybr profedig a all gefnogi unigolion economaidd anweithgar a di-waith a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd iawn cael cyflogaeth yn y sector a rhoi cyfle iddynt gael eu troed ar ris isaf gyrfa yn y sector gofal plant.

Argymhelliad – Byddai'r deilliannau llwyddiannus a gefnogwyd gan y Prosiect yn awgrymu y dylid parhau â'r cymorth y mae wedi'i roi i gyflogwyr ac unigolion di-waith yn y dyfodol naill ai fel prosiect ar wahân, neu sicrhau bod llwybr addas o fewn rhaglenni cyflogadwyedd ar gyfer y rhai sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn Gofal Plant.

- 6.14 Ymddengys hefyd fod targedu'r cymorth at y rhai sydd dros 24 yn briodol gan bod mwy o gymorth cyflogaeth eisoes ar gael yn gyffredinol i bobl dan 24 oed a'i bod yn ymddangos mai pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg (h.y. y rhai dan 24 oed) yw'r rhan fwyaf o newydd-ddyfodiaid i'r sector gofal plant.
- 6.15 Mae'r Prosiect Gofal Plant ar Waith wedi gweithio'n dda yng nghyd-destun y sector gofal plant, ac roedd llawer o asiantaethau cymorth cyflogaeth o'r farn ei fod yn ei gynnig ei hun fel model y gellid ei gymhwyso yng nghyd-destun sectorau eraill.

Argymhelliad – Dylid rhoi ystyriaeth bellach i fabwysiadu'r model cyflawni a ddatblygwyd ar gyfer prosiect y Gofal Plant ar Waith i gefnogi llwybrau cyflogaeth ar gyfer unigolion sydd allan o waith sy'n ceisio cyflogaeth mewn sectorau eraill.

Atodiad A: Hysbysiad preifatrwydd

Gwerthusiad o Brosiect Gofal Plant ar Waith

Lansiwyd y Prosiect Gofal Plant ar Waith i ymgysylltu ag unigolion, a oedd yn economaidd anweithgar, mewn rhaglen o hyfforddiant a phrofiad gwaith ymarferol i'w alluogi i fynd i mewn i'r sector gofal plant.

O fewn y prosiect Gofal Plant ar Waith rydym yn ceisio cynnig llwybr rhagarweiniol sy'n darparu hyfforddiant i gefnogi cyflogwyr i recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau a'r priodoleddau personol cywir ar gyfer gweithio yn y sector, ac sydd wedi cael eu cefnogi i ennill y sgiliau rhagarweiniol sy'n ofynnol i fodloni gofynion rheoliadol.

Bydd y gwerthusiad proses hwn yn llywio ein sylfaen dystiolaeth ar gynorthwyo unigolion i ymuno â'r gweithlu gofal plant, a datblygu sgiliau perthnasol yn y gweithle. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn llywio integreiddiad y llwybr cyflogaeth a'r model cyflenwi yn y dyfodol ar gyfer y sector gofal plant, sy'n cael ei ddatblygu o dan fframwaith cyflogadwyedd newydd o'r enw Cymorth Swyddi Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni ymchwil *Arad*, i gwblhau gwerthusiad o'r *Prosiect* Gofal Plant ar Waith. Nod y gwerthusiad hwn yw llywio datblygiad llwybrau cyflogaeth yn y dyfodol ar gyfer y sector gofal plant. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn bydd *Arad* yn casglu gwybodaeth trwy gyfweiliadau â rhanddeiliaid, darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr data'r ymchwil. Fodd bynnag, bydd *Arad* yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir trwy'r cyfweiliadau, ac yn anhysbysu'r data crai, cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn *Arad* yw Stuart Harries neu Jennifer Lane

Cyfeiriad E-bost: Stuart@arad.wales neu Jennifer@arad.wales

Rhif ffôn: 02920 440552

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol sydd gennym ni a sut y cawsom yr wybodaeth?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson adnabyddedig y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, wrth gyfeirio at adnabyddydd'.

Mae'r Gymdeithas Meithrinfeidd Dydd Cenedlaethol sy'n cyflwyno'r prosiect Gofal Plant ar Waith yn cadw'ch manylion cyswllt at ddibenion gweinyddu a gwerthuso prosiectau, ar ran Llywodraeth Cymru. Maent wedi darparu eich manylion cyswllt i *Arad*.

Nid yw'r ymchwil hwn yn gofyn am gasglu data personol ychwanegol gennych chi.

Mae eich cyfranogiad mewn cyfweiliad ymchwil yn wirfoddol ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan neu gael nodiadau atgoffa, yna rhwch wybod i ni gan ddefnyddio'r rhif ffôn a ddarperir neu trwy ateb e-bost y gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu. Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd *Arad* yn defnyddio cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Ni ofynnir i chi ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil. Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth y gellir ei ddefnyddio i'ch hadnabod, byddwn yn eu droi yn ddi-enw yn gynnar yn ein hadolygiad o'r data ymchwil, ac yn ceisio peidio â'ch adnabod o'r ymatebion a roddwch, na chysylltu'ch hunaniaeth â'r ymatebion. Os byddwch yn codi ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yn ei ddileu o'r data ymchwil.

Beth yw'r sylfaen gyfreithlon ar gyfer defnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarferiad casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, gweithredu ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth ymarferol ynglŷn â'i gallu i weithredu blaenoriaethau llywodraeth. Gellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hon, er enghraifft, i lywio datblygiad llwybrau cyflogaeth eraill neu gefnogaeth i ymuno â'r gweithlu gofal plant.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth personol a ddarperir i *Arad* bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cyrchu'r data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Arad Research yn defnyddio'r data hwn. Mae gan *Arad* ardystiad Cyber Essentials.

Mae gan *Arad* weithdrefnau i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os bydd amheuaeth o dorri, bydd *Arad* yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd yr holl ddata a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei gadw ar ffurf anhysbys. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu. Bydd *Arad* yn defnyddio'r data i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba hyd yr ydym yn cadw eich data personol?

Bydd *Arad* yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol yn cael ei ddileu gan *Arad* dri mis ar ôl diwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd *Arad* yn darparu fersiwn ddiennw o'r data i Lywodraeth Cymru na fydd yn cynnwys gwybodaeth a allai eich adnabod chi.

Eich hawliau fel unigolyn

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth personol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Mae gennych yr hawl i:

- Gyrchu copi o'ch data eich hun;
- Gofyn i ni gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu prosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- Sicrhau bod eich data yn cael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut y caiff y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os ydych am arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol, cysylltwch â:

Enw: Yee Ling Harris

Cyfeiriad E-bost: YeeLing.Harris@wales.gov

Rhif ffôn: 03000 256914

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost:
DataProtectionOfficer@gov.wales.

Atodiad B: Canllawiau pwnc trafod

Canllaw pwnc trafod ar gyfer cyfweiliadau cwmpasu / rhanddeiliaid a phartneriaid

Mae Arad wedi'i gomisiynu gan y Llywodraeth i werthuso'r Prosiect Gwaith Gofal Plant. Mae ystod o randdeiliaid yn cael eu cyf weld i gasglu barn ar y broses o ddatblygu, sefydlu, cyflawni ac unrhyw effaith gynnar ar y prosiect.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol. Adroddir yn ddienw ar yr holl wybodaeth a gesglir. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl yng nghyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru.

Sylwch: cylchredwyd yr hysbysiad preifatrwydd trwy e-bost ac mae ar gael os gofynnir am hynny.

Cefndir

1. Esboniwrch eich rôl / sefydliad a sut y gwnaethoch chi gymryd rhan yn y Prosiect Gwaith Gofal Plant.
 - Cymryd rhan mewn peilot cynharach? / Lefel cyfranogiad nawr?
 - [efallai na fydd yn berthnasol i bawb] Pa fathau eraill o raglenni ydych chi'n cymryd rhan ynddynt?

Rhesymeg a ffit strategol

2. Pam roedd angen y Prosiect Gwaith Gofal Plant?
3. Sut mae'r Prosiect Gofal Plant yn cyd-fynd â mentrau eraill sy'n cefnogi:
 - cyflogadwyedd
 - y gweithlu gofal plant / sector gofal plant?

A yw'r rhesymeg dros y peilot gwreiddiol a'r prosiect hwn yn wahanol? - os felly ym mha ffordd?

Dyluniad y prosiect

4. Beth yw eich barn am ddyluniad cyffredinol y prosiect?
5. Beth yw'r prif wahaniaethau yn nyluniad y prosiect ers y cyfnod peilot? A pham?
 - Beth ddysgwyd yn ystod y peilot?
 - Cyflwyno / newid fesul cam yn y cyfranogwyr a dargedir

Cyflawni prosiect

6. Beth yw eich barn am y broses recriwtio ar gyfer cyfranogwyr y prosiect?
 - Sut cafodd cyfranogwyr eu recriwtio
 - Sgiliau a phriodoleddau disgwylidig cyfranogwyr
 - Proses cyf weld / dewis - cyfranogiad sefydliadau partner?
7. Pa mor effeithiol yw cyfathrebu?
 - Gyda Llywodraeth Cymru / NDNA / sefydliadau partner
 - Partneriaid cyflenwi - hyfforddwyr / cyflogwyr

- Monitro gofynion data
8. Pa ffactorau sydd wedi helpu / rhwystro gweithrediad y prosiect?
 - Rhwyddineb recriwtio - cyfranogwyr / cyflogwyr
 - Cadw
 - Cyfathrebu â chyflogwyr / sefydliadau partner eraill
 - Sut mae unrhyw rwystrau wedi'u datrys?
 9. Pa agweddau ar y broses gyflawni sy'n gweithio'n arbennig o dda / beth sy'n heriol?
 10. A ystyriwyd cyfle cyfartal wrth ddylunio a chyflawni'r prosiect? Os felly, sut?
 - Rhyw y cyfranogwyr
 - Ethnigrwydd cyfranogwyr
 - Cymraeg (darpariaeth Gymraeg-laith / laith y cyfranogwyr)

Effaith a chanlyniadau

11. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effaith y prosiect (peilot)?
 - Ar gyfranogwyr
 - Darparwyr gofal plant
 - Capasiti a gallu'r gweithlu
 - Plant
12. Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn raddol - gwelliannau ar y peilot?

Cwestiynau ymchwil ychwanegol

13. A ydych chi'n meddwl y dylai'r ymchwil hon ganolbwyntio ar unrhyw feysydd penodol?

Canllaw pwnc trafod ar gyfer cyfweiliadau cyfranogwyr (Cam 1 a Cham 2)

Mae Arad wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Prosiect Gwaith Gofal Plant. Mae cyfranogwyr a chyflogwyr yn cael eu cyfweld i gasglu barn ar ddisgwyliadau, profiad prosiect ac effaith.

[Cyfranogwyr na chwblhaodd y prosiect - addasu cwestiynau fel y bo'n briodol yn ôl yr amser y gwnaethant gymryd rhan].

Mae cymryd rhan yn yr ymchwili yn wirfoddol. Adroddir yn ddienw ar yr holl wybodaeth a gesglir. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl yng nghyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru.

Sylwch: mae'r hysbysiad preifatrwydd wedi'i gylchredeg trwy e-bost ac mae ar gael os gofynnir am hynny.

Cefndir

14. [Efallai y bydd angen sensitifrwydd]

Rhowch drosolwg byr o'ch taith gyflogaeth cyn cymryd rhan yn y prosiect

15. Esboniwch sut y gwnaethoch chi gymryd rhan yn y Prosiect Gwaith Gofal Plant.

- Pryd wnaethoch chi ddechrau a gorffen eich lleoliad (oni bai eich bod chi ar leoliad o hyd)
- Sut wnaethoch chi ddarganfod / dod yn ymwybodol o'r prosiect?
- Beth oedd eich cymhelliant i gymryd rhan? e.e. i weithio ym maes gofal plant - i ennill gwaith yn unrhyw le?
- Beth oedd eich disgwyliadau o'r prosiect - a yw'r rhain wedi'u cyflawni?
- [Efallai na fydd yn berthnasol i bawb] A ydych wedi cymryd rhan / cymryd rhan mewn unrhyw raglenni gwaith / cyflogaeth eraill / tebyg yn y gorffennol? - os do, pa rai - sut mae Gwaith Gofal Plant yn cymharu ac yn cyferbynnu â'r rhain?

Nodau'r prosiect

16. Beth oedd eich dealltwriaeth o'r hyn yr oedd y prosiect yn anelu at eich cefnogi chi?

Awgrym - e.e. i gael swydd i chi fel gweithiwr gofal plant - i roi profiad / sgiliau gwaith gofal plant i chi - arall?

- A wnaeth y prosiect gyflawni'r nodau hyn yn eich barn chi?

Cyflawni prosiect

Trafodwch drwodd, a chynhigiwch eich barn ar sut wnaethoch chi ddod yn rhan o'r prosiect?

17. Sut cawsoch eich recriwtio i'r prosiect? Awgrymiadau

- Lefel y wybodaeth a dderbyniwyd am y prosiect - beth oedd yn gysylltiedig ac ati
- Proses cyfweld / dewis?
- Asesiadau prosesau gweinyddol e.e. WEST

18. Pa hyfforddiant gawsoch chi?

- Ble cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu?

- Faint o amser wnaethoch chi dreulio'n hyfforddi?
- Beth oedd y prif bethau y gwnaethoch chi eu dysgu - achrediad gwybodaeth sgiliau a gafwyd?
- [Ar gyfer cyfranogwyr cyflwyno fesul cam] a wnaethoch chi dderbyn darpariaeth hyfforddiant estynedig i ennill cymhwyster Lefel 2? Os do, beth oedd hyn
- beth yw eich barn am y meysydd sy'n cael sylw yn yr hyfforddiant (e.e. ADY, Lleferydd ac Iaith, Makaton)
 - a oedd yr agweddau hyn ar yr hyfforddiant yn ddefnyddiol? - os oedd, ym mha ffordd? os na pam?
 - pa feysydd hyfforddi eraill fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i chi?
- A oes unrhyw feysydd yr oedd angen mwy o gymorth hyfforddi arnoch nag eraill? Os felly, beth yw'r rhain? - a wnaeth y gefnogaeth hyfforddi a gawsoch ddiwallu'r anghenion hyn?

19. Beth oedd y lleoliad mewn darparwr gofal plant yn ei olygu?

- Sut cawsoch eich dyrannu i leoliad gofal plant?
- Pa oriau wnaethoch chi weithio - pa dasgau a osodwyd i chi?
- A gawsoch chi unrhyw hyfforddiant mewn gwaith neu gymorth sgiliau gan eich cyflogwr yn ystod eich lleoliad?
- A gawsoch eich asesu ar eich cynnydd o gwbl?

20. Beth yw eich barn am y gefnogaeth a gawsoch gan gydlynnydd y prosiect trwy gydol eich amser ar y rhaglen?

- Galwadau ffôn (ac ati) yn ystod eich lleoliad?

Ar gyfer cyfranogwyr na chwblhaodd y prosiect:

- Pam na wnaethoch chi gwblhau'r prosiect? (Beth ydych chi'n ei wneud nawr?)
- Beth fyddai wedi eich helpu chi i gwblhau'r prosiect?

Effaith a chanlyniadau

21. Beth ddigwyddodd / beth ydych chi'n rhagweld fydd yn digwydd ar ddiwedd eich lleoliad?

- Awgrymiadau os oes angen - a gynigiwyd swydd i chi yn y lleoliad gofal plant lle gwnaethoch y gwaith?
 - i. Os do - a wnaethoch chi dderbyn y cynnig? - os na, pam lai?
 - ii. Os na - a roddwyd rheswm ichi pam?
- Pa rôl ydych chi'n gweithio ynddi nawr? Beth ydych chi wedi'i wneud ers y prosiect? Os ydych chi'n dal i weithio yn eich lleoliad - Beth yw'ch cynlluniau ar ôl cwblhau'r lleoliad?

22. Beth fu effaith y prosiect mewn perthynas â'ch sgiliau (hyder, cyfathrebu, swydd-benodol), cyflogadwyedd, profiad, bwriadau gyrfa yn y dyfodol?

23. Pa mor effeithiol fu'r prosiect hwn mewn perthynas â chodi eich ymwybyddiaeth o gyfleoedd dilyniant gyrfa mewn gofal plant? - rhowch fanylion

24. Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol - e.e. parhau i weithio / chwilio am gyfleoedd cyflogaeth yn y sector gofal plant? Dychwelyd i hyfforddiant addysg? Chwilio am gyflogaeth mewn sector arall - ddim yn gwybod?
25. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r rhaglen Gwaith Gofal Plant gael ei wella e.e.
- Oed targed y cyfranogwyr?
 - Hyd amser / amseriad / cynnwys hyfforddiant?
 - Hyd yr amser / math o leoliad gwaith?
26. Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n graddio'r prosiect gwaith gofal plant?

Canllaw pwnc trafod ar gyfer cyfweiliadau gosod cyflogwyr / gofal plant

Mae Arad wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Prosiect Gwaith Gofal Plant. Mae cyfranogwyr a chyflogwyr yn cael eu cyfweld i gasglu barn ar ddisgwyliadau, profiad prosiect ac effaith.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol. Adroddir yn ddienw ar yr holl wybodaeth a gesglir. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl yng nghyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru.

Sylwch: mae'r hysbysiad preifatrwydd wedi'i / gylchredeg trwy e-bost ac mae ar gael os gofynnir am hynny.

Cefndir

27. Rhowch drosolwg byr o'ch lleoliad (e.e. math o leoliad, nifer y plant / staff)
28. Beth yw'r brif iaith a ddefnyddir yn eich lleoliad?
- Cyfrwng Saesneg
 - Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg
 - Hanner Saesneg hanner Cymraeg
 - Cymraeg yn bennaf gyda rhywfaint o Saesneg
 - Cyfrwng Cymraeg
29. Esboniwch sut y gwnaethoch chi gymryd rhan yn y Prosiect Gwaith Gofal Plant.
- Sut wnaethoch chi ddarganfod / dod yn ymwybodol o'r prosiect?
 - Beth oedd eich cymhelliant i gymryd rhan?
 - Beth oedd eich disgwyliadau - a yw'r rhain wedi'u cyflawni?
 - [efallai na fydd yn berthnasol i bawb] Ydych chi wedi cael profiad o raglenni tebyg? - os do, sut mae Gwaith Gofal Plant yn cymharu ac yn cyferbynnu â'r rhain

Nodau'r prosiect

30. Beth oedd / yw eich dealltwriaeth o nodau'r Prosiect?

Awgrymiadau - mewn perthynas â:

- Llwybrau at gyflogaeth
- Datblygu gallu'r gweithlu mewn lleoliadau gofal plant

Cyflawni'r prosiect

31. Trafodwch drwodd, a chynhigiwch eich barn ar eich rhan yn y prosiect

Awgrymiadau - mewn perthynas â

- Lefel y wybodaeth a dderbyniwyd am y prosiect
- Cael cyfranogwr

32. Beth oedd eich gofynion fel cyflogwr yn ystod y lleoliad mewn perthynas â:

- dyrannu tasgau ar gyfer y cyfranogwr
- Cynnig unrhyw hyfforddiant / cymorth datblygu sgiliau
- Monitro cynnydd cyfranogwyr / cyflwyno data monitro/cynnydd am y cyfranogwr

33. Pa mor effeithiol oedd y gefnogaeth a gawsoch?

- gan NDNA / Busnes Cymru
- Pa feysydd gwybodaeth a chefnogaeth oedd y rhai mwyaf buddiol / effeithiol yn eich barn chi? - lleiaf defnyddiol / effeithiol?
- Unrhyw feysydd roedd angen mwy o gefnogaeth arnoch chi nag eraill? Datrysiadau?

Ar gyfer cyflogwyr lle na chwblhaodd y cyfranogwr y prosiect:

- Pam na wnaethant gwblhau'r prosiect?
- Beth fyddai wedi helpu i sicrhau bod y cyfranogwr yn cwblhau'r prosiect?

Effaith a chanlyniadau

34. A wnaethoch chi / a ydych yn debygol o gynnig swydd i'r cyfranogwr ar ddiwedd y prosiect?

- **Os na** - beth yw'r rhesymau am hyn - Ble mae'ch cyfranogwr yn gweithio nawr / neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol (os yw'n gwybod)?
- **Os do** - beth sydd wedi arwain at y penderfyniad hwn?
- A fydddech chi wedi cyflogi'r unigolyn hwn heb gefnogaeth y prosiect?
 - Os na, sut mae'r prosiect wedi eich cefnogi chi i gyflogi'r unigolyn hwn?

35. I ba raddau, os o gwbl, y mae'r prosiect wedi cael unrhyw effaith mewn perthynas â:

- Capasiti'r gweithlu yn eich lleoliad?
- Eich gallu i ddenu / recriwtio unigolion â sgiliau gwell i'ch lleoliad?
- Cynaliadwyedd eich lleoliad yn y dyfodol?

Effaith ar sgiliau

36. A oes unrhyw sgiliau penodol y mae eich lleoliad eu hangen / yn ei chael yn anodd eu recriwtio - e.e. sgiliau iaith Gymraeg, sgiliau blaenorol a phrofiad o weithio gyda phlant?
- Os oes - beth yw'r sgiliau / meysydd profiad hyn
 - A wnaeth y prosiect eich helpu i ddod o hyd i unigolion a oedd â'r sgiliau / profiadau hyn?
37. Yn gyffredinol, beth fydddech chi'n ei ddweud sydd wedi gweithio'n arbennig o dda mewn perthynas â'ch cyfranogiad yn y prosiect hwn?
- beth, os o gwbl, fu'r heriau?
38. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill a awgrymwyd gwelliannau ar gyfer hyn neu brosiectau tebyg yn y dyfodol?
- Awgrymiadau posib:
- Oed targed y cyfranogwyr
 - Ymagwedd at hyfforddiant / lleoliad (hyd yr amser / lefel / cynnwys y pecyn hyfforddi / cymorth)

Canllaw trafod ar gyfer cyfweiliadau ag atgyfeirwyr

Mae Arad wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Prosiect Gwaith Gofal Plant. Mae ystod o atgyfeirwyr yn cael eu cyf weld i gasglu barn ar y broses o cyfeirio, ffit strategol, dyluniad prosiect ac effaith.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol. Adroddir yn ddienw ar yr holl wybodaeth a gesglir. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl yng nghyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru.

Sylwch: cylchredwyd yr hysbysiad preifatrwydd trwy e-bost ac mae ar gael os gofynnir am hynny.

Cefndir

39. Esboniwch eich rôl / sefydliad a sut mae hynny'n cysylltu â'r Prosiect Gwaith Gofal Plant.
- Faint o unigolion ydych chi wedi cyfeirio at y Prosiect?
 - Cymryd rhan mewn peilot cynharach? / Lefel cyfranogiad nawr?

Rhesymeg a ffit strategol

40. Beth ydych chi'n ddeall yw nodau, amcanion a chanlyniadau y bwriadir gan Brosiect Gwaith Gofal Plant?
41. Pam roedd angen y Prosiect Gwaith Gofal Plant?
42. Sut mae'r Prosiect Gwaith Gofal Plant yn cyd-fynd â mentrau eraill sy'n cefnogi:

- cyflogadwyedd
- y gweithlu gofal plant / sector gofal plant?

Marchnata a hyrwyddo

1. Sut glywsoch chi gyntaf am y Prosiect Gwaith Gofal Plant?
 - A oedd gennych gysylltiadau â NDNA / Cydlynnydd Prosiect cyn y Prosiect Gwaith Gofal Plant?
 - Pa wybodaeth gawsoch chi am y Prosiect? Pa mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth hon?
2. Pa mor effeithiol yn eich barn chi fu marchnata a hyrwyddo'r Prosiect Gwaith Gofal Plant?
 - A oedd digon o hyrwyddiad?

Y Broses Cyfeirio

3. Siaradwch â mi trwy'r broses o gyfeirio cleient i'r Prosiect Gwaith Gofal Plant.
 - Beth oedd y broses hon yn ei olygu?
 - Ymgysylltu â Chydlynnydd Prosiect NDNA a derbyn gwybodaeth?
 - Pa wybodaeth wnaethoch chi ei darparu i gleientiaid am y Prosiect?
4. Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd y broses cyfeirio hon?
5. A ellid gwneud unrhyw welliannau i'r broses cyfeirio hon?
6. A oedd unrhyw unigolion y gwnaethoch eu cefnogi:
 - wedi cyfeirio at y prosiect a heb ei dderbyn? Os felly, beth oedd y rhesymau am hyn?
 - Pwy nad oedd am gael eich cyfeirio at y prosiect er eich bod yn meddwl y gallent fod yn addas?
 - Pwy oedd eisiau cael eu cyfeirio at y prosiect, ond nad oeddech chi'n meddwl oedd yn addas?

(Rhowch resymau dros eich ymatebion i bob un).

Dylunio a chyflawni prosiect

7. Beth yw eich barn am ddyluniad cyffredinol y prosiect?
8. Beth yw eich barn am y broses recriwtio ar gyfer cyfranogwyr y prosiect?
 - Sgiliau a phriodoleddau disgwylledig cyfranogwyr
 - Proses cyfweld / dewis?
 - Pa gyfran o'ch cleientiaid y gwnaethoch chi gyfeirio atynt yn y Prosiect a gafodd eu recriwtio a chymryd rhan yn y Prosiect?
9. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod cyfleoedd cyfartal wedi'u hystyried wrth ddylunio a chyflawni'r prosiect?
 - Rhyw y cyfranogwyr
 - Ethnigrwydd cyfranogwyr
 - Cymraeg (darpariaeth Gymraeg-laith / laith y cyfranogwyr)

Effaith a chanlyniadau

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effaith y prosiect?
 - Ar gyfranogwyr

- Darparwyr gofal plant
 - Capasiti a gallu'r gweithlu
11. Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi o'r farn bod y Prosiect wedi diwallu anghenion eich cleientiaid?
12. Yn gyffredinol, beth fydddech chi'n dweud sydd wedi gweithio'n arbennig o dda mewn perthynas â'ch cyfranogiad yn y prosiect hwn?
- beth, os oes unrhyw beth, sydd wedi helpu / rhwystro eich rhan yn y prosiect?
13. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill a awgrymwyd gwelliannau ar gyfer y prosiect hwn neu brosiectau tebyg yn y dyfodol?
- Awgrymiadau posib:
- Oed targed y cyfranogwyr
 - Ymagwedd at hyfforddiant / lleoliad (hyd yr amser / lefel / cynnwys y pecyn hyfforddi / cymorth)